The UK government's decision in 2017 to extend the franchise to prisoners on temporary release to comply with the original 2005 ECtHR judgement is only a very modest step in the right direction. In reality, it will extend the franchise to just a couple of hundred people at a time. No one in prison serving a custodial sentence who has not been granted release on temporary licence (ROTL) or home detention curfew (HDC) will be able to vote, and so the vast majority of people in prison will remain disenfranchised. This is far from being a model for compliance in the rest of Europe, where all but seven member states of the Council of Europe enable people in prison to vote. It has been described by the leading human rights lawyer Sean Humber as "a very cynical attempt" and "trying to do the bare minimum and falling short."[8]

- **Practical issues, such as electoral registration (including address), voting method, prisoner engagement with the political process, the provision of political and citizenship information and education;**

The Prison Reform Trust does not profess to have expertise in electoral administration. We would simply highlight that there are already mechanisms in place which allow remand prisoners to vote by post or proxy. Though prisoners cannot register at the prison address, an amendment to the Representation of the People Act (2000) enabled them to register using a declaration of local connection, allowing them to use the address where they would be living if they were not on remand or an address where they have lived in the past. A system of postal or proxy voting was set out by the Electoral Commission in its response to the Ministry of Justice's consultation on prisoner voting in 2009.[9] The UK Government's draft Voting Eligibility (Prisoners) Bill envisaged that any prisoners granted the right to vote would vote by post or proxy, and would "be entitled to register to vote not at the prison, but at their former address or, if they did not have a former address, the area where they had a local connection."[10] The Ministry of Justice's second stage consultation paper, issued in 2009, supported this method of registration.[11]

Engaging prisoners in the political process could contribute to the development of prisoners' sense of self and community. As with other disadvantaged groups, efforts will need to be made by politicians and statutory authorities to reach out to prisoners and engage with their concerns and provide tailored citizenship information and education. Engaging prisoners in the political process would have the advantage of forcing politicians to take account of the political views of prisoners and to actively engage with issues of penal policy. In its report, the Scottish Parliament's Equality and Human Rights Committee noted that "increased engagement with prisoners could benefit politicians and policy makers' understanding of penal policy and the lives of prisoners".[12]

---

[8] https://www.bbc.co.uk/news/uk-41803722
[9] https://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/80462/Voting-Rights-of-Convicted-Prisoners-Detained-within-the-United-Kingdom-SENT.pdf
[10] https://publications.parliament.uk/pa/jt201314/jtselect/jtdraftvoting/103/10302.htm
[11] https://www.leighday.co.uk/LeighDay/media/LeighDay/documents/MoJ---Voting-Rights-of-Convicted-Prisoners-Detained-within-the-United-Kingdom---Second-Consultation--Apr-09.pdf?ext=.pdf
[12] http://www.parliament.scot/newsandmediacentre/108523.aspx

PRT has championed the benefits of "active citizenship" in prisons for many years. Our report "Time well spent"[13] in 2012 and most recently "A different lens",[14] published in December 2017, both describe ways in which existing prisons draw on the knowledge and talent of prisoners to help create safer and more purposeful prison communities. PRT has established a prisoner policy network to provide people in prison with the opportunity to engage with and influence penal policy making. The first report of the network on incentives in prison, which draws on the contributions of an estimated 1,250 people in prison, is due to be published in February. The report's interim findings were fed into the Ministry of Justice's consultation on the incentives and earned privileges (IEP) scheme, and has been received extremely positively by officials.

- **Cross-border issues arising from prisoners from Wales being imprisoned in England and vice versa;**

  Extending the franchise to prisoners from Wales but not other parts of the UK would raise practical considerations, given that many Welsh prisoners serve their sentences in English establishments and vice versa. We do not profess to have the knowledge or expertise to provide solutions to the cross-border issues that would arise. However, the UK and Welsh governments have experience of coordinating services in other areas where policy is devolved, for instance in health policy. While we would prefer to see the franchise extended to all prisoners in the UK, thus avoiding the cross-border issues which would arise from a separate approach by the devolved nations, we do not believe the practical problems to be insurmountable. If it is agreed as a point of principle that Welsh prisoners ought to be able to participate in Welsh national and local elections, then administrative arrangements should be devised to enable them to do so.

- **Whether special considerations apply to young offenders in custody if the franchise is extended to 16 and 17 year olds generally, and**

  We do not have a view on whether the franchise ought to be extended to 16 and 17 years olds in general. However, if it is decided to extend the franchise to this age group, then this should include 16 and 17 year olds in custody. For any age group, we do not believe the franchise should be withdrawn arbitrarily on the basis of the imposition of a custodial sentence.

- **Other countries' approaches to prisoner voting.**

  We refer the Committee to page 16 of the Scottish Parliament's Equality and Human Rights Committee's agenda for its second meeting, 25 January 2018 (session 5)[15] for an update on the approaches taken by countries in the Council of Europe on prisoners voting:

  > Due to language barriers and a lack of literature on the subject, it is not possible to provide a fully comprehensive or up-to-date overview of each prisoner voting system in the Council of Europe. However, based on information compiled by the House of Commons Library in its Standard Note on prisoners' voting rights (2005 to May 2015) v and more recent work carried out by the human rights organisation Liberty in 2016, and the University of Baltimore, it appears that, in addition to the UK, the only Council of Europe countries which have a blanket ban on prisoner voting are:

---

13 http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Time%20Well%20Spent%20report%20lo.pdf

14 http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/A%20Different%20Lens.pdf

15 http://www.parliament.scot/S5_Equal_Opps/Meeting%20Papers/20180125PublicPapers.pdf

• Armenia
• Bulgaria
• Estonia
• Georgia
• Hungary
• Russia

At the other end of the spectrum, many Council of Europe States have no restrictions or virtually no restrictions on prisoner voting. These include:
• Croatia, the Czech Republic, Denmark, Finland, Ireland, Latvia, Lithuania, Norway, Slovenia, Spain, Sweden and Switzerland

There is also a large group of countries which have some form of partial ban on prisoner voting. In countries operating partial bans, the ban is normally based on either:
1. the length of sentence; or
2. the type of offence committed.

For example, in Poland the ban is limited to those convicted of a serious crime with a sentence of more than three years, whereas in the Netherlands prisoners sentenced to one year or more may only have their right to vote removed by the court if they have committed a crime “affecting the foundations of the state”.vi It appears that the Dutch ban has been applied very infrequently, for example the court refused to allow it in an infamous Islamic terrorism case - the murder of the film director Theo van Gogh in 2004 . 19

Countries which have partial bans often grant the judiciary varying degrees of discretion in applying or disapplying the ban on voting. Countries following this approach include amongst others: the Netherlands, Belgium, France, Poland, Cyprus, Romania, and Poland. In other countries, such as Greece and Italy, the loss of the right to vote is mandatory for certain serious offences.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

23 Ionawr 2019 – clawr y papurau i'w nodi

Rhif y papur	Mater	Oddi wrth	Gweithredu
ELGC(5)-03-19 Papur 3	Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn	Llywodraeth Cymru	Ymateb i adroddiad y Pwyllgor
ELGC(5)-03-19 Papur 4	Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip	Ymateb i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 18 Rhagfyr 2018

Eitem 6.1

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-RE-4172-18

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

21 Rhagfyr 2018

Annwyl John

Adolygu Diogelwch Tân mewn Adeiladau Uchel Iawn

Yn dilyn newidiadau gweinidogol diweddar, rwyf wedi cael y prif gyfrifoldeb gweinidogol dros Dai a Llywodraeth Leol. Gan fod materion yn ymwneud â diogelwch adeiladau yn rhan o'm portffolio, rwyf yn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor a'i argymhellion. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei amser a'i ymrwymiad wrth ystyried y pwnc cymhleth ac amlochrog hwn. Fel y cyn-Weinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans AC, rwyf yn argyhoeddedig bod yn rhaid i'r diwygiadau angenrheidiol i'r system fod yn gynhwysfawr, yn ystyriol ac yn gydlynol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydbwyso'r cyflymder priodol â'r gwaith myfyrio angenrheidiol, gan sicrhau bod y newidiadau a wnawn yn ymarferol, yn gwneud gwahaniaeth amlwg a'u bod, yn y pen draw, yn gywir i breswylwyr a'r system gyfan. Fel yr eglurodd y Fonesig Judith Hackitt yn ei hadroddiad, *Independent Review of Building Regulations and Fire Safety*, mae angen i newidiadau adfer hyder y cyhoedd yn y system. Ni fyddwn, felly, yn dewis yr opsiwn 'hawdd' i'w wneud ar draul yr hyn sydd angen ei wneud.

Argymhelliad 1. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n sefydlu trefn i reoleiddio asiantiaid sy'n rheoli adeiladau preswyl uchel iawn. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb ymestyn cylch gwaith Rhentu Doeth Cymru i gynnwys trwyddedu asiantiaid sy'n rheoli adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Er mwyn atal camddefnydd ehangach o'r system lesddaliadau, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen fis Awst diwethaf. Bydd y Grŵp yn darparu argymhellion ar ddiwygio lesddaliadau preswyl, gydag adroddiad terfynol wedi'i drefnu ar gyfer haf 2019. Un argymhelliad cychwynnol a wnaed i Lywodraeth Cymru yw y dylid mabwysiadu'r Service Charge Residential Code, 3ydd Argraffiad, gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae fy swyddogion yn gweithio gyda RICS i addasu'r Cod er mwyn ymgorffori deddfwriaeth yng Nghymru.

Yn ogystal â'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar adolygiad Comisiwn y Gyfraith o gyfraith lesddaliad. Mae'r prosiect hwn yn ystyried rhyddfreinio, yr Hawl i Reoli a chyfunddaliadau. Disgwylir i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gael yr adroddiad yn ystod haf 2019. Bydd yr adroddiad yn rhoi cyngor ar gamau i ddiwygio'r sector, gan gynnwys deddfwriaeth bosibl, a rheoleiddio asiantiaid rheoli.

O safbwynt cyflwyno trefniadau dros dro i asiantiaid sy'n rheoli adeiladau preswyl uchel iawn lesddaliadol fel rhan o gynllun presennol Rhentu Doeth Cymru, byddwn yn ystyried pa mor ddichonol a dymunol yw'r argymhelliad. Fodd bynnag, dylwn nodi y byddai'r cam gweithredu interim arfaethedig yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd. Ar hyn o bryd, mae Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod gofynion o ran eiddo a osodir o dan denantiaethau domestig. Mae Deddf 2014 yn creu awdurdod trwyddedu (h.y. Cyngor Caerdydd sy'n gweithredu fel Rhentu Doeth Cymru) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid yn y sector preifat sy'n gosod eu heiddo o dan denantiaethau domestig gofrestru ac i'r asiantiaid hynny sy'n rheoli eiddo ar ran landlordiaid sy'n gosod eu heiddo o dan denantiaethau domestig gael trwydded. Yr awdurdod trwyddedu sy'n cyflawni'r swyddogaethau cofrestru a thrwyddedu. Petai gofynion statudol newydd yn cael eu gosod ar y sawl sy'n rheoli adeiladau preswyl uchel iawn lesddaliadol a bod rôl yr awdurdod trwyddedu yn cael ei hymestyn yn unol â hynny, byddai angen gwneud newid deddfwriaethol. Fel y cyfryw, ymddengys i ni nad yw'n ymarferol gweithredu'r argymhelliad, dros dro ac yn y byrdymor, drwy Rhentu Doeth Cymru.

<u>Argymhelliad 2</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch drysau tân a sicrhau bod pob drws tân yn rhoi o leiaf 30 munud o amddiffyniad. Dylai hyn gynnwys rhoi arweiniad i breswylwyr, lesddeiliaid, asiantiaid rheoli a datblygwyr wrth fynd i'r afael â phryderon a gosod drysau tân newydd yn lle unrhyw rai y ceir pryderon am eu diogelwch ar hyn o bryd.

Ymateb: Derbyn

Fel y nododd y cyn-Weinidog Tai ac Adfywio yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, defnyddir cyfuniad o fesurau i sicrhau diogelwch tân mewn unrhyw adeilad. Mae'r rhain yn cynnwys drysau tân, allanfeydd tân a chynlluniau dianc, systemau chwistrellu ac addysg ar ddiogelwch tân. Os bydd un o'r mesurau amddiffyn hyn yn methu, er enghraifft, drysau tân, ni ddylai hyn gael effaith sylweddol ar ddiogelwch cyffredinol y preswylwyr. Yn hynny o beth, cytunaf â chyngor Panel Arbenigol Llywodraeth y DU ar ddrysau tân, a ddywedodd fod “the additional risk to public safety remains low”.

Wedi dweud hynny, rhaid i'r sector fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â drysau tân cyfansawdd, sy'n peri pryder. Mae'n falch gennyf nodi bod gweithgynhyrchwyr yn cydweithredu ac yn ymddwyn yn gyfrifol. Cafodd pob drws y gwyddys ei fod wedi methu â chyrraedd y safon angenrheidiol, ei dynnu'n ôl o'r farchnad. Gofynnwyd i'r gweithgynhyrchwyr dan sylw gysylltu â'u cwsmeriaid. Deallaf fod drysau trwyddedig priodol bellach yn dychwelyd i'r farchnad, o dan amodau sy'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Fel Llywodraeth, rydym wedi cymryd camau rhagweithiol priodol. Cyhoeddodd cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ganllawiau statudol ar ddrysau tân mewn fflatiau preswyl (ar gael yma). Yn yr un modd, mae cyngor i breswylwyr ar gael ar wefan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol a gellir cael cyngor am ddim gan y Gwasanaeth Tân hefyd. Dylai preswylwyr sy'n dal i fod yn bryderus am eu drysau gysylltu â'u landlord neu berchennog yr adeilad.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau priodol ar gael i berchenogion adeiladau wrth i'r system brofi ddod i'w therfyn. Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu'n rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn Whitehall.

Argymhelliad 3. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth newydd i ddisodli Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn fel rhan o'r trywydd y mae'r Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau yn ei baratoi. Dylai'r ddeddfwriaeth newydd gynnwys y canlynol:

- **Safonau ar gyfer y sawl sy'n cynnal asesiadau risg tân;**
- **Gofyniad i gynnal asesiadau risg tân bob blwyddyn o leiaf ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn;**
- **Cadarnhad bod drysau tân sy'n ddrysau ffrynt i fflatiau yn cael eu hystyried yn rhan o'r ardaloedd cymunol a'u bod, felly, yn cael eu cwmpasu gan y ddeddfwriaeth sy'n disodli Gorchymyn Diogelwch Tân 2005**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cytunaf â'r Pwyllgor bod angen diwygio'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn sylweddol neu ei ddisodli. Ni luniwyd y Gorchymyn ar gyfer adeiladau preswyl ac, felly, nid yw'n mynd i'r afael â'r prif risgiau tân mewn adeiladau o'r fath. Byddwn yn ystyried awgrymiadau'r Pwyllgor.

Er mwyn cyflawni diwygiadau sy'n mynd i'r afael â phryderon y Fonesig Judith (a'n rhanddeiliaid), bydd angen darn, neu ddarnau, sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn cymryd amser a dwys ystyriaeth er mwyn sicrhau bod system newydd ar gyfer diogelwch adeiladau yn glir, yn gydlynol, yn ymarferol ac yn effeithiol. Byddwn yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â diwygiadau i ddeddfwriaeth diogelwch tân fel rhan o'r gwaith hwn, ac ni allwn warantu y caiff hyn ei gwblhau yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth, byddwn yn parhau i weithio i gadarnhau disgwyliadau mewn perthynas â drysau tân. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i weithio gyda landlordiaid a phersonau cyfrifol i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.

Argymhelliad 4. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n ystyried dichonoldeb sicrhau bod arolygon lefel pedwar ymwthiol yn cael eu cynnal ar gyfer pob adeilad preswyl uchel iawn. Dylai hyn gynnwys yr effaith ar gapasiti

gwasanaethau tân ac achub, y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen a chodi unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol.

<u>Argymhelliad 5</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth diogelwch tân y gofynnir amdanynt yn argymhelliad 3, yn rhoi pwerau deddfwriaethol i wasanaethau tân ac achub ofyn am arolygon lefel pedwar ymwthiol.

Ymateb: Derbyn y ddau mewn Egwyddor

Y rhai sy'n comisiynu, yn dylunio ac yn adeiladu prosiectau sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod adeiladau'n addas at y diben. Cyfrifoldeb yr adeiladwr/datblygwr yw sicrhau eu bod yn codi adeiladau o ansawdd da. Nid rôl arolygwyr rheoli adeiladu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub yw edrych dros ysgwydd pob crefftwr ar y safle i sicrhau ei fod yn gwneud gwaith da.

Yn ei hadolygiad o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân, nododd y Fonesig Judith Hackitt nifer o faterion a allai effeithio ar ddiogelwch adeiladau. Yn eu plith, roedd diffyg rolau a chyfrifoldebau clir, a chymhwysedd proffesiynol.

Mae angen i ni adfer ffydd yn y system. Wrth ymateb i adolygiad Hackitt, byddwn yn cyflwyno'r cyfuniad cywir o gyfrifoldeb clir, cymhwysedd, trosolwg rheoleiddio ac arweiniad sy'n adlewyrchu risg ar draws yr ystod o adeiladau sy'n cael eu datblygu yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried yr angen am arolygon ymwthiol o adeiladau a phwy sydd yn y sefyllfa orau i'w cynnal. Os bydd angen, byddwn yn ystyried sut y byddem yn rhoi'r mesurau hyn ar waith drwy ddiwygiadau deddfwriaethol.

<u>Argymhelliad 6</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n dilyn y model Cyd-awdurdod Cymwys a amlinellir yn Adolygiad Hackitt.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae rhoi ystyriaeth briodol i lefelau craffu, trosolwg gan arolygwyr rheoli adeiladu a maint adeiladau risg uwch yn hollbwysig. Mae'r Fonesig Judith Hackitt yn cynnig mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy 'Gyd-awdurdod Cymwys'. Fel rhan o'n hymateb, byddwn yn ystyried priodoldeb cael Cyd-awdurdod Cymwys yng Nghymru, neu a fyddai trefniant arall i sicrhau craffu cadarn yn fwy priodol yng Nghymru. Dyma un o'r meysydd y mae fy Ngrŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau yn ei ystyried. Byddwn hefyd yn ystyried ymateb Llywodraeth y DU i'r cynnig hwn ac unrhyw faterion trawsffiniol dilynol neu bosibl.

<u>Argymhelliad 7</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir diwygio'r broses cynllunio a rheoleiddio adeiladu er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu cynnwys yn llawer cynt yn y broses fel y gellir defnyddio eu harbenigedd ym maes diogelwch tân i sicrhau y gall adeiladau preswyl uchel iawn wrthsefyll tân yn briodol.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd, caiff diogelwch tân mewn adeiladau ei reoleiddio gan arolygwyr rheoli adeiladu (naill ai'r awdurdod lleol neu arolygwyr cymeradwy) mewn perthynas â chodi neu addasu adeiladau, ac Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â meddiannu adeiladau sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Mae'n ofynnol i Gyrff Rheoli Adeiladu ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân ac Achub os bwriedir i adeilad fod yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn Tân a Diogelwch. Mae'r *Building Regulations and Fire Safety Procedural Guidance* yn nodi sut y bwriedir i'r ddwy system reoleiddiol weithio.

Yn ôl tystiolaeth gan Awdurdodau Tân ac Achub, mae perthynas dda wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Dywedodd yr Awdurdodau hefyd nad yw Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau nes i'r gwaith adeiladu ddechrau. Yn yr enghreifftiau gwaethaf, ni chysylltir â nhw nes bod adeiladau ar fin cael eu meddiannu. Nid yw hyn yn dderbyniol a byddem yn edrych i weld sut y gallai'r system reoleiddiol fynd i'r afael â'r mater.

Rwyf yn cydnabod gwerth nodi adeiladau risg uchel yn gynnar ac ymgysylltu'n gynnar â'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym wedi dechrau nodi opsiynau i gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub yn fwy ffurfiol yn y broses gynllunio. Er enghraifft, p'un a allai fod modd eu gwneud yn ymgyngoreion gorfodol ar fathau penodol o geisiadau cynllunio a'r cyngor ar ddiogelwch tân y gallent ei roi ar y cam cynllunio datblygu, fel pa mor agos yw coedwig, cyflenwad dŵr a mynediad i gyfarpar.

Wrth ymateb i'r materion a gododd yn sgil ymchwiliad Grenfell, rydym eisoes wedi bod yn dwyn partïon ynghyd, gan gynnwys amrywiaeth o swyddogion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Prototeip cynnar yw hwn o'r math o drefniadau ymgysylltu, strwythur, prosesau rhannu gwybodaeth a gweithgarwch y mae Hackitt yn eu disgrifio ar gyfer Cyd-awdurdod Cymwys. Bydd hyn yn ddefnyddiol er mwyn nodi materion a dysgu gwersi am gyd-ymgysylltu wrth i ni ddatblygu opsiynau. Bydd fy Ngrŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau yn ystyried y materion hyn ymhellach.

<u>Argymhelliad 8</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n asesu effeithiolrwydd trefniadau i sicrhau ansawdd gwaith adeiladu, ac yn ystyried p'un a ellir mandadu arfer gorau drwy reoleiddio.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodais yn gynharach, y rhai sy'n comisiynu, yn dylunio ac yn adeiladu prosiectau sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod yr adeiladau'n addas at y diben, a bydd hynny'n parhau. Cyfrifoldeb yr adeiladwr/datblygwr yw sicrhau eu bod yn codi adeiladau o ansawdd da.

Er mwyn ymateb i ganfyddiadau adolygiad Hackitt, bydd angen cyfuniad o ymyriadau gan lywodraethau a mesurau i wella sgiliau'r diwydiant. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Diwydiant i daro cydbwysedd priodol rhwng rheoleiddio a newid ymddygiad a hyrwyddo arfer gorau.

<u>Argymhelliad 9</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau i'r system rheoleiddio adeiladu ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn sy'n darparu ar gyfer arolygiadau mwy rheolaidd ar y safle yn ystod y cam adeiladu gan arolygwyr Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Prif swyddogaeth arolygwyr rheoli adeiladu yw sicrhau bod gofynion y rheoliadau adeiladu'n cael eu bodloni. Yn gyffredinol, maent yn astudio cynlluniau, manylebau a dogfennau eraill a gyflwynir i'w cymeradwyo ac yn archwilio safleoedd wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r rhan fwyaf o syrfewyr rheoli adeiladu'n cymryd rhan weithredol yn y broses o ddylunio llawer o gynlluniau a chydnabyddir eu bod yn darparu mewnbwn gwerthfawr ar bob cam mewn datblygiad.

Ar hyn o bryd, caiff awdurdodau lleol eu hysbysu ar gamau penodol e.e. dechrau gweithrediadau a chyn gorchuddio gwaith cloddio, sylfeini, slab a draenio. Yna, ar sail asesiad risg, bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu i ba raddau y mae angen archwilio safle. Cydnabyddir bod angen adolygu'r camau hysbysu gan nad ydynt yn adlewyrchu cymhlethdod adeiladau na gofynion rheoliadau adeiladu mwyach.

Bydd arolygiadau mwy penodol ac sy'n fwy seiliedig ar risg yn helpu i wella ansawdd. Bydd ailddiffinio set gliriach o gyfrifoldebau, a ategir gan well cymhwysedd ac adroddiadau, ac ailasesu newidiadau a wneir yn ystod y cyfnod adeiladu, yn gwneud cyfraniad mwy fyth.

Bydd fy Ngrŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau yn ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau arolygu presennol yn adlewyrchu risg yn ddigonol a ble y gellir gwneud gwelliannau.

<u>Argymhelliad 10</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n newid y fframwaith rheoleiddiol ar frys fel mai dim ond arolygwyr rheoli adeiladu awdurdodau lleol a all gyflawni rôl y rheoleiddiwr ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn sy'n saith llawr neu'n uwch. Fodd bynnag, wrth newid y fframwaith, dylai adrannau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol allu penodi arolygwyr cymeradwy i gyflawni'r gwaith ar eu rhan.

Ymateb: Gwrthod (ar hyn o bryd)

Nododd Adolygiad Hackitt wrthdaro buddiannau canfyddedig rhwng budd masnachol y sector preifat a'i rôl wrth fetio dyluniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

Mae nifer o wahaniaethau rhwng Arolygwyr Cymeradwy ac adrannau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol. Nid yw'r naill system na'r llall yn 'wael' fel y cyfryw ac, yn wir, mae rhai gofynion ychwanegol yn berthnasol i Arolygwyr Cymeradwy nad ydynt yn berthnasol i adrannau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol. Er enghraifft, rhaid i Arolygwyr Cymeradwy ddangos a chynnal cymwysterau a phrofiad perthnasol. Hefyd, mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â chod ymddygiad a chânt eu harchwilio gan gorff annibynnol, ond nid oes unrhyw fframwaith tebyg ar gael ar hyn o bryd ar gyfer arolygwyr Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol.

Wedi dweud hynny, mae rhai manteision gwirioneddol i gysondeb. Byddwn yn ystyried y materion perthnasol o ran capasiti a chymhwysedd arbenigol wrth i ni ddatblygu cynigion ar gyfer rôl cyrff rheoli adeiladu ac Arolygwyr Cymeradwy o fewn Awdurdodau Lleol ac yn y sector preifat yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi sylw dyledus, wrth gwrs, i gasgliadau fy Ngrŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau.

<u>Argymhelliad 11</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ymhen chwe mis am gapasiti yn y DU ar gyfer profi defnyddiau ac unrhyw effaith y mae hynny wedi'i chael ar ddiogelwch tân mewn adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Wrth drafod â Llywodraeth y DU, byddwn yn ymdrechu i ddeall p'un a oes unrhyw oblygiadau hirdymor i'r problemau sy'n cael eu nodi ar hyn o bryd wrth drefnu profion.

<u>Argymhelliad 12</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i annog neu gymell mesurau i ôl-osod systemau chwistrellu yn y sector preifat.

Ymateb: Derbyn

Cydnabyddir yn eang bod systemau chwistrellu'n ffactor allweddol sy'n cyfrannu at fesurau diogelwch tân effeithiol. Bydd gosod systemau chwistrellu mewn tai newydd ac fel rhan o raglenni adnewyddu yn gwneud cryn dipyn i leihau'r risg o farwolaeth ac anaf o ganlyniad i dân.

Mae Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 wedi cael ei roi ar waith drwy Reoliadau Adeiladu 2010. Ers 30 Ebrill 2014, mae wedi bod yn ofynnol gosod systemau llethu tân (systemau chwistrellu) yn yr adeiladau canlynol, rhai newydd a rhai wedi'u haddasu:

- cartrefi gofal;
- cartrefi preswyl i blant;
- lletyau;
- neuaddau preswyl;
- hosteli (heblaw am hosteli y bwriedir eu defnyddio fel llety dros dro at ddibenion hamdden).

Lluniodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Canllaw i Ddeiliaid Tai ar Systemau Chwistrellu' yn 2015. Ers 1 Ionawr 2016, mae wedi bod yn ofynnol gosod systemau chwistrellu mewn cartrefi a fflatiau newydd a rhai wedi'u haddasu. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymddangos yn bwysicach fyth nawr.

Yng Nghymru, o'r 38 o flociau cymdeithasol uchel iawn, gwyddys bod 21 wedi gosod neu eu bod wrthi'n ôl-osod systemau chwistrellu.

Yn y sector preifat, mater i'r person cyfrifol o hyd yw ôl-osod systemau chwistrellu mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau diogelwch tân. Perchenogion adeiladau sy'n gyfrifol am geisio cyngor proffesiynol a phenderfynu p'un a ddylid

gosod systemau chwistrellu, ar sail eu hasesiad o'r risg benodol a wynebir yn eu hadeilad(au).

Ar hyn o bryd, ni allwn ei gwneud yn ofynnol i ôl-osod systemau chwistrellu mewn unrhyw annedd. Mae mwy y gallai landlordiaid yn y sector preifat ei wneud. Rwy'n falch bod rhai ohonynt yn cymryd camau i ôl-osod y mesurau diogelwch tân pwysig hyn.

Fel rhan o'n rhaglen i wella diogelwch adeiladau, byddwn yn ystyried ffyrdd eraill y gallem annog neu hyd yn oed gymell mwy o fesurau i ôl-osod systemau chwistrellu mewn adeiladau amlfeddiannaeth.

<u>Argymhelliad 13</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cydweithio â Llywodraeth y DU i nodi unrhyw ddulliau gweithredu cyffredin y gallant eu defnyddio i fynd i'r afael â phryderon am gost gwaith adferol ac atebolrwydd lesddeiliaid am y gost.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu cydberthnasau gwaith agos â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar ôl digwyddiadau Tŵr Grenfell. Bydd fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'u swyddogion cyfatebol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rheolaidd ac mewn perthynas â'r holl faterion a fydd yn codi.

Nid yw cwmpas newidiol ac estynedig datganoli – sydd wedi ymestyn cymhwysedd Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf – yn newid yr angen am gysylltiadau cryf rhwng Llywodraeth Cymru, y gweinyddiaethau datganoledig eraill, a Llywodraeth y DU.

Er y byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau eraill i ddeall goblygiadau adroddiad terfynol y Fonesig Judith, caiff y camau a gymerir yma eu barnu ar sail yr hyn sydd orau i Gymru. Yn yr amser byr rydym wedi bod yn gyfrifol am reoliadau adeiladu, rydym eisoes wedi dangos ein bod yn awyddus i ddilyn ein hagenda ein hunain. Bydd yr un peth yn wir am ddiogelwch tân. Fodd bynnag, nid ydym am fod yn wahanol er mwyn bod yn wahanol.

O safbwynt eich sylwadau am atebolrwydd am gostau adfer, mae'n bleser gennyf nodi mai datblygwyr neu berchenogion adeiladau, nid lesddeiliaid adeiladau, sydd wedi talu ac a fydd yn talu am waith a gwblhawyd a gwaith arfaethedig i dynnu a disodli cladin o Ddefnydd Cyfansawdd Alwminiwm yng Nghymru.

<u>Argymhelliad 14</u>. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau a'r Grŵp Diwygio Cyfraith Lesddaliad, yn ystyried sut y gellir annog a chefnogi mesurau i ddefnyddio cynlluniau gadael personol mewn adeiladau uchel iawn yn y sector preifat.

Ymateb: Derbyn

Mae'n debygol bod gan unigolion â chyflyrau hirdymor neu broblemau symudedd sy'n byw yn y sector tai cymdeithasol, neu mewn lleoliadau eraill fel cartrefi gofal, Gynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng.

I'r rhai sy'n byw mewn llety preifat, nid oes gofyniad cyfreithiol i gael cynllun o'r fath, ac nid oes gofyniad cyfreithiol i'r landlord gymryd unrhyw gamau i sicrhau eu bod yn gadael. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod ac amwysedd y Gorchymyn Diogelwch Tân, sydd ond yn gymwys i ardaloedd cymunol adeiladau ac nid anheddau unigol.

Wedi dweud hynny, gall y rhai â chyflyrau hirdymor weithio gyda'u hasiant rheoli neu berchennog yr adeilad i ddatblygu cynlluniau dianc priodol.

Nid yw'n bosibl, nac yn briodol, i gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ddylid tynnu sylw preswylwyr, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, at fuddiannau cynlluniau o'r fath, ac na ddylent allu cael un os byddant yn gwneud cais am un. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei astudio wrth i ni ystyried diwygio deddfwriaeth diogelwch tân ymhellach.

Croesawaf ddadansoddiad gofalus y Pwyllgor o'r materion hyn. Er ei bod yn amlwg bod angen i ni newid y system, mae hefyd angen i ni newid y diwylliant ac mae'n anochel y bydd hynny'n cymryd amser. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymdrechu i gyflwyno cynigion sy'n ystyried y system a'r diwylliant sy'n sail iddi. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor wrth i ni wneud newidiadau.

Yn gywir,

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Eitem 6.2

Gwaith ar ôl Deddfu y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Mae'r papur hwn yn darparu'r ymatebion unigol i bob un o'r cwestiynau a godwyd yn y llythyr oddi wrth John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dyddiedig 18 Rhagfyr yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn y Craffu ar ôl Deddfu - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a gafwyd ar 7 Tachwedd 2018.

1. Copi o'r ddogfen sy'n rhestru gwybodaeth am y gwahanol strategaethau, fframweithiau a chyllid sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf;

1.1. **Ymateb:** Mae'r ddogfen y cyfeiriodd cyn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ati yn y cyfarfod wedi'i hatodi yn Atodiad 1. Y ddogfen hon yw'r Cynnydd ar Weithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Mae'n rhestru'r holl strategaethau, canllawiau a fframweithiau perthnasol.

1.2. Yn Atodiad 2 mae tabl sy'n dangos pob strategaeth, dogfen ganllaw a fframwaith perthnasol a gyhoeddwyd.

1.3. Mae Atodiad 3 yn darparu manylion y cyllid ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

2. Sylwadau am y cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn adroddiad craffu ar ôl deddfu'r Pwyllgor yn 2016;

2.1. **Ymateb:** Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu manylion am y cynnydd a gafwyd hyd at eu cyhoeddi, ac mae nifer o'r manylion hynny wedi'u nodi hefyd yn y papur hwn. Gellir gweld yr adroddiadau hyn yma:

- Ebrill 2015 – Mawrth 2017
http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11358/gen-ld11358-w.pdf

- Ebrill 2017 – Mawrth 2018
http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11618/gen-ld11618-w.pdf

2.2. Mae'r adroddiad cynnydd nesaf i gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gyhoeddi ym Mai 2019 a bydd yn trafod y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

2.3. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei chynllun cyflawni sydd i'w ddarparu gyda'r Strategaeth Genedlaethol ddyddiadau cyflawni unigol, penodol ar gyfer:

- Pob un o'r canllawiau statudol sydd heb eu darparu:

2.3.1. **Ymateb:** Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ym Mawrth 2016.

2.3.2. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol drafft ar hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' ym mis Tachwedd 2017. Roedd y canllawiau wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft er mwyn caniatáu i'r gweithredwyr cyntaf roi adborth am eu profiadau wrth weithredu'r canllawiau. Rydym wedi ailosod y contract ar gyfer darparu hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' yn ddiweddar gan gynnwys gofyniad i adolygu'r hyfforddiant ar ôl ystyried yr adborth hwn.

2.3.3. Cyhoeddir Canllawiau Statudol ar Gomisiynu Rhanbarthol yn Chwefror 2019.

2.3.4. Nid oes canllawiau eraill sydd heb eu cyhoeddi .

- Y canllawiau i awdurdodau lleol ar baratoi strategaethau lleol:

2.3.5. **Ymateb:** Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ym Mawrth 2016.

- Y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'u mewnosodwyd gan adran 9 o'r Ddeddf) yn ymwneud ag adrodd gan awdurdodau lleol am y ffordd y mae eu sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf:

2.3.6. **Ymateb:** Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi rheoliadau, yn hytrach na'u rhoi o dan ddyletswydd i ddyroddi rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â chyhoeddi canllawiau ar y ffordd y mae sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf wrth ddisgwyl canlyniad yr adolygiad o'r cwricwlwm. Bydd y mater hwn yn cael ei ddal dan sylw.

- Cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr:

2.3.7. **Ymateb:** Rydym wedi ymgynghori ar Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr. Roedd y cyfraddau ymateb yn siomedig felly byddwn yn ymgymryd â rhagor o waith eleni. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o ymchwil i ffyrdd i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn gwneud defnydd o ganfyddiadau'r astudiaeth er mwyn treialu Panel Cenedlaethol ar Ymgysylltu â Goroeswyr a ffyrdd i helpu grwpiau rhanbarthol i ymgysylltu â'r Panel Cenedlaethol.

2.3.8. Rydym wedi rhedeg gweithdai gyda rhanddeiliaid a goroeswyr yn rhan o'r gwaith hwn a disgwylir canfyddiadau interim o'r astudiaeth cyn hir.

2.4. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen i ddangos pa bryd y bydd y dangosyddion cenedlaethol o dan adran 11 o'r Ddeddf yn cael eu cyhoeddi:

2.4.1. **Ymateb:** Lansiwyd yr ymgynghoriad ffurfiol ar y Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n ofynnol

o dan adran 11 o'r Ddeddf ar 2 Ionawr 2018 ac mae i ddod i ben ar 29 Mawrth 2019.

2.4.2. Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol drafft yn cael eu diweddaru i ymgorffori'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad er mwyn llunio set derfynol o Ddangosyddion Cenedlaethol erbyn Mai 2019.

2.4.3. Ymgymerir â gwaith ychwanegol i edrych ar y ffynonellau data ychwanegol y gellir eu defnyddio i fesur y Dangosyddion Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu amserlen ar gyfer hyn ar hyn o bryd gan y bydd yn dibynnu ar yr adborth a geir yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd diweddariad ar y datblygiadau a'r amserlenni yn y maes hwn yn cael ei gynnwys yn y diweddariadau ar gynnydd y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt o dan bwynt 15 yn y papur hwn.

2.5. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gyhoeddi'r canllawiau statudol ar gomisiynu i wasanaethau arbenigol:

2.5.1. **Ymateb:** Rydym wedi diwygio ein Canllawiau drafft ar Gomisiynu Rhanbarthol yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r rhain yn Chwefror 2019, gyda'r bwriad o'u gwneud yn statudol o 1 Ebrill 2019. Mae rhagor o fanylion ym mharagraff 9 yn y papur hwn.

2.6. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ar y ffordd y gallant alinio pecynnau hyfforddi, asesiadau o anghenion a fframweithiau canlyniadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

2.6.1. **Ymateb:** Mae Canllawiau 'Gofyn a Gweithredu' (paragraff 2.3), Canllawiau ar Strategaethau Lleol (paragraff 2.3), a'r Canllawiau ar Gomisiynu (paragraff 10) wedi'u bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i alinio eu pecynnau hyfforddi, asesiadau o anghenion a fframweithiau canlyniadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.6.2. Yn ystod 2019 bydd swyddogion a'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn helpu i ddatblygu'r Strategaethau Lleol ymhellach. Os gwelir bod angen rhagor o ganllawiau yn y maes hwn, bydd swyddogion yn cymryd camau yn unol â hynny.

2.7. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen i ddangos pa bryd y bydd y Bwrdd Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cwblhau ei waith ar fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol (a pha bryd y rhoddir gwybod am hyn). Dylai sicrhau hefyd fod cyllid digonol ar gael i'r sector i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw a grëir o ganlyniad i'r Ddeddf:

2.7.1. **Ymateb:** Galwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid allweddol i ddatblygu model cyllido cynaliadwy. Fodd bynnag, ar ôl cytuno ar ddiffiniad o gyllido cynaliadwy, canolbwyntiodd y grŵp ar helpu i ddatblygu canllawiau ar gomisiynu rhanbarthol fel modd i sicrhau cynaliadwyedd. Ataliwyd y grŵp wrth gwblhau'r canllawiau ac ymgynghori arnynt ac mae wedi cael ei ailalw yn ddiweddar gyda chylch gorchwyl newydd o dan gadeiryddiaeth Yasmin Khan, un o'r ddau Gynghorydd Cenedlaethol. Mae wedi cytuno ar egwyddorion cyllido yn rhan o'i waith. Mae rhagor o fanylion yn yr ymateb i baragraff 8.

2.7.2. Mae'r gyllideb ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cynyddu £0.5 miliwn i £5 miliwn. Y cyllid ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar lety yw £9.2 miliwn (fel y nodir ym mharagraff 3.2).

2.8. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau brys â Llywodraeth y DU am y trefniadau i gyllido cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynadleddau asesu risg amlasiantaeth yng Nghymru er mwyn cael gwybod am yr effaith o golli unrhyw gyllid, a sut y bydd y gronfa trawsnewid newydd yn gallu hybu gwaith mewn partneriaeth:

2.8.1. **Ymateb:** Cafwyd trafodaethau â Llywodraeth y DU. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau rhanbarthol ar gyfer cyllido o dan y grant refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Ebrill 2018. Mae'r rhanbarthau yn defnyddio'r grant hwn i gyllido cynghorwyr trais domestig annibynnol. Mae cynadleddau asesu risg amlasiantaeth yn cael eu cyllido gan yr Heddlu neu gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi'u cynrychioli ar Fyrddau Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

2.9. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob strategaeth, gwasanaeth, rhaglen hyfforddi a chanllaw a gaiff ei baratoi neu ei gomisiynu o ganlyniad i'r Ddeddf:

- yn ymdrin â phob math o gam-drin a thrais sy'n cael ei drafod gan y Ddeddf, nid cam-drin domestig yn unig,

- yn defnyddio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

2.9.1. **Ymateb:** Mae'r Ddeddf yn cynnwys pob math o drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y maent wedi'u diffinio yn Adran 24 o'r Ddeddf.

2.9.2. Mae gan y Ddeddf ei diffiniadau ei hun o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac nid yw'r rhain yn cyfeirio at ddiffiniadau'r Cenhedloedd Unedig.

2.10. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 8.** Fel mater brys, dylai Llywodraeth Cymru:

- egluro statws cyfreithiol y cynllun cyflawni a ddarperir, a ddylai gael ei ddyroddi ar ffurf canllawiau statudol os oes modd er mwyn sicrhau y gellir ei orfodi:

2.10.1. **Ymateb:** Mae'r fframwaith cyflawni traws-lywodraethol yn gynllun gweithredu yn hytrach na chanllawiau, ac mae'n disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru, wrth weithio ar draws meysydd polisi gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, yn cyflawni ei hymrwymiadau yn y Strategaeth Genedlaethol. Felly nid yw'n briodol ei ddyroddi ar ffurf canllawiau statudol.

- Amlinellu pa bryd y bydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi, a sut yr ymgynghorir arno:

2.10.2. Ymateb: Datblygwyd y fframwaith cyflawni traws-lywodraethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac o sefydliadau allanol a chafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018. Gan ei bod yn ddogfen 'fyw', bydd swyddogion yn cydweithio â rhanddeiliaid ar ddiweddariadau yn y dyfodol. Mae rhagor o fanylion ym mhwynt 11 isod.

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-cy.pdf

- Sicrhau bod y deg argymhelliad gan oroeswyr sydd yn yr adroddiad "Are you listening, am I being heard?" yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr:

2.10.3. **Ymateb:** Mae'r deg argymhelliad gan oroeswyr wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021. Y rhain oedd y sylfaen i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Ymgysylltu Cenedlaethol ac rydym yn eu dal dan sylw wrth fwrw ymlaen â'n gwaith. Mae goroeswyr wedi'u cynrychioli ar ein gweithgorau ac maent wedi cymryd rhan yn weithgar iawn wrth ddatblygu ein hymgyrchoedd cyfathrebu.

2.11. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys addysgu am berthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd o dan Faes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Lles', a dylai sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu yn yr holl ysgolion.

2.11.1. **Ymateb:** Mae Rhywioldeb a Pherthnasoedd Iach wedi'i gynnwys o dan Faes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Lles'. Mae rhagor o fanylion am hyn ym mharagraff 5.

2.12. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl ysgolion (ac yn enwedig y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi) yn defnyddio'r Canllaw Arfer Da a ddatblygwyd gan Cymorth i Ferched Cymru, ac yn rhoi trefniadau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y Canllaw. Yn dilyn gwerthusiad o'r Canllaw, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud yn ganllawiau statudol.

2.12.1. **Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o'r Canllaw a'r manteision o wneud hynny. Mae arweinwyr ar bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol hefyd yn sicrhau bod y canllaw yn rhan annatod o'r holl gyhoeddiadau a chanllawiau addysg perthnasol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru.

2.12.2. Mae arweinwyr ar bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol hefyd yn aelodau o'r Grŵp Rhywioldeb a Pherthnasoedd a sefydlwyd i sicrhau cydgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd materion sy'n codi, yn cynnwys y rheini sydd wedi'u rhestru uchod, yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn.

2.12.3. Mae arweinwyr ar bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Addysg Bersonol a Chymdeithasol, sy'n cynnwys Ysgolion Arloesi ac yn trafod materion sy'n ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth ar gyfer Rhywioldeb a Pherthnasoedd mewn ysgolion a datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd. Cadarnhawyd yno fod ysgolion yn defnyddio'r Canllaw Arfer Da.

2.13. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r broses o baratoi rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau i hyrwyddo dibenion y Ddeddf. Dylai ymrwymo hefyd i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddechrau adrodd erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2017/18:

2.13.1. **Ymateb:** Mae hyn wedi'i drafod o dan baragraff 2.3.6 mewn ymateb i argymhelliad 1.

2.14. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r pecyn o adnoddau a deunyddiau sydd wedi'i gasglu gan Cymorth i Ferched Cymru ac AVA (Against Violence and Abuse) i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r Canllaw Arfer Da.

2.14.1. **Ymateb:** Mae'r pecyn wedi'i gyhoeddi ar wefan Byw Heb Ofn:

https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?skip=1&lang=cy

2.15. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd addysg ar berthnasoedd iach a chydsynio yn cael ei thrafod gan sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn cynnwys trefnu i ganllawiau gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 10 o'r Ddeddf.

2.15.1. **Ymateb:** Mae swyddogion yn cydweithio â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddatblygu canllaw arfer da a fydd yn debyg i'r Dull Addysg Gyfan a'r Canllaw Arfer Da i Lywodraethwyr, ond wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer lleoliadau Addysg Uwch.

2.15.2. Mae'r angen i ddatblygu'r canllaw wedi'i nodi yn llythyr cylch gwaith cyllid CCAUC ar gyfer 2019-2020 a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori erbyn diwedd y flwyddyn hon.

2.16. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti rôl y Cynghorydd Cenedlaethol, ac ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol iddi ar gyfer ymchwil ac i helpu i ddatblygu strategaethau lleol.

2.16.1. **Ymateb:** Roedd rôl y Cynghorydd Cenedlaethol wedi'i chynyddu i fod yn un amser llawn ac mae'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd ar sail rhannu swydd gan Nazir Afzal a Yasmin Khan. Mae hyn wedi bod yn fodd i gynnwys amrywiaeth fwy o sgiliau a phrofiadau yn y rôl nag a fyddai wedi digwydd os oedd un person yn y swydd.

2.16.2. Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cael cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y rheini mewn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Mae proses recriwtio ar gyfer swydd ychwanegol yn cael ei chynnal ar hyn o bryd er mwyn darparu rhagor o gymorth penodol.

2.17. **Adroddiad craffu ar ôl deddfu 2016: argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa sancsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru os na fydd gofynion y Ddeddf yn cael eu cyflawni gan awdurdodau cyhoeddus:

2.17.1. **Ymateb:** Mae adran 19 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer cymryd camau mewn perthynas â chanllawiau statudol. Rhaid i awdurdod perthnasol ddyroddi datganiad polisi os oes ganddo reswm da dros beidio â dilyn canllawiau statudol a'i fod yn cynnig dewis arall. Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod perthnasol i gymryd camau priodol os nad yw'r datganiad polisi, ym marn Gweinidogion Cymru, yn debygol o gyfrannu at gyflawni dibenion y Ddeddf.

3. Rhestr o linellau cyllideb a chyllid sy'n cynnal prosiectau a mentrau sy'n deillio o'r Ddeddf:

3.1. **Ymateb:** Mae rhestr yn atodiad 2 o'r llinellau cyllideb ar gyfer 2018 – 2019 sy'n ategu'r Ddeddf. Nid yw'r dyraniad cyllideb ar gyfer 2019 – 2020 wedi'i benderfynu'n derfynol eto.

3.2. Yn ogystal â'r gyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae dwy gyllideb bellach sy'n helpu i gyflawni polisi ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:

- £9.2 miliwn o gyllid Cefnogi Pobl ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar lety fel llety lloches

- £187,000 o gyllid Iechyd ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Cam-drin Rhywiol

3.3. Mae ffynonellau cyllid eraill ar draws Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth ar gyfer materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn rhan o becyn cymorth ac felly ni ellir pennu'r union swm ar gyfer y maes penodol hwn. Rhai enghreifftiau o'r ffynonellau hyn yw:

- Prosiect Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, sy'n gweithredu o fewn ysgolion ledled Cymru ac yn cael ei gyllido o'r gyllideb Camddefnyddio Sylweddau. Tua £2 miliwn y flwyddyn yw'r gyllideb gyfan. Fodd bynnag, dim ond un elfen yn y ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael yw delio â materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

- Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth sy'n cael ei gyllido gan Gronfeydd Ewropeaidd. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau a chyflogadwyedd rhieni, ond mae hefyd yn rhoi sylw i faterion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel un o'r rhwystrau i gyfranogwyr. Cyfanswm gwerth y prosiect hwn yw £13.5 miliwn ac mae £5 miliwn wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol o gronfeydd Llywodraeth Cymru. Fel y prosiect Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, dim ond un elfen yn y ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael yw delio â materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

3.4. Er nad yw bob amser yn bosibl troi'r ddarpariaeth a'r cymorth a gynigir gan y gwahanol ffrydiau cyllido yn Llywodraeth Cymru yn fuddsoddi ariannol, rydym yn sicrhau ein bod yn cydweithio ac yn trafod materion ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd y Cynghorwyr Cenedlaethol yn sefydlu grŵp polisi traws-adrannol yn rhan o'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2019-2020. Bydd hwn yn dod â'r holl arweinwyr polisi sy'n darparu cymorth a darpariaeth at ei gilydd i ddelio â materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

4. Manylion am nifer y plant sydd wedi defnyddio gwasanaethau Hafan Cymru:

4.1. **Ymateb:** Nifer y plant sydd wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Sbectrwm Hafan Cymru rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018: **25,886** o blant rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4.

4.2. Nifer y plant sydd wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Sbectrwm Hafan Cymru rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018: **14,084** o blant rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4.

4.3. Nifer y sesiynau a ddarparwyd i blant a staff ysgolion rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018: **1,090** o sesiynau unigol ledled Cymru. Dim ond ers Ebrill 2018 y gofynnwyd am y data hyn felly nid oes data cynharach ar gael.

4.4. Mae'r adroddiad am y chwarter nesaf rhwng Medi 2018 a Rhagfyr 2018 i gael ei gyflwyno erbyn diwedd Ionawr 2019.

5. Manylion am y cynnydd ar weithredu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn rhan statudol o'r cwricwlwm, yn dilyn gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

5.1. **Ymateb:** Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu addysg rhyw yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r canllawiau presennol ar Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn cael eu diweddaru yn dilyn yr adolygiad a'r argymhellion. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y diweddariad o'r canllawiau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yn dod i ben ym Mawrth 2019.

5.2. Mae gofyniad statudol i ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm newydd, felly bydd ysgolion yn dilyn y cwricwlwm presennol nes eu bod yn teimlo eu bod yn gallu darparu'r cwricwlwm newydd neu pan fydd gofyniad statudol i wneud hynny.

5.3. Mae swyddogion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rhan o'r grŵp Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ac yn helpu i lunio cynnwys y cwricwlwm newydd. Maent hefyd yn sicrhau bod canllawiau ar gyfer darparu'r cwricwlwm presennol yn gyfamserol a pherthnasol.

5.4. Yn dilyn ymgynghori, cytunir ar y cwricwlwm terfynol a bydd ar gael i'w weithredu o Ebrill 2022. Mae'r llinell amser ar gyfer gweithredu (pan fydd y cwricwlwm newydd yn statudol) fel a ganlyn:

- Ebrill 2022: Ysgolion Cynradd (Y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1, Cyfnod Allweddol 2 a Blwyddyn 7 o Gyfnod Allweddol 3
- Ebrill 2023: Blwyddyn 8
- Ebrill 2024: Blwyddyn 9
- Ebrill 2025: Blwyddyn 10
- Ebrill 2026: Blwyddyn 11

5.5. Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle i ddarparu addysg mewn ffordd hollol wahanol i addysg rhyw draddodiadol felly bydd angen amser i'w sefydlu, ei hadolygu, ei diwygio a'i hystyried er mwyn sicrhau bod y dull newydd yn briodol ac effeithiol.

6. Manylion am nifer y bobl sydd wedi cael yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu":

6.1. **Ymateb:** Mae tua 135,000,000 o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ers ei gyflwyno yn 2016. Cafodd y canllaw drafft gweithio ar "Gofyn a Gweithredu" ei lansio'n ffurfiol ym mis Tachwedd 2017. Mae'r rhaglen yn cael ei threialu ar bum safle ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei chyflwyno ledled Cymru erbyn 2021.

6.2. Erbyn diwedd Mawrth 2018, roedd 127,103 o weithwyr mewn awdurdodau perthnasol wedi cael eu hyfforddi drwy e-ddysgu (grŵp 1).

6.3. Mae 1,800 o weithwyr wedi cael eu hyfforddi ar y broses “Gofyn a Gweithredu” (grwpiau 2 a 3) a rhagwelir y bydd 4,000 o weithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi yn 2019-2020.

6.4. Mae ffilmiau cryfhau arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr strategol yn y sector cyhoeddus wedi cael eu gwylio mwy na 6,500 o weithiau (grŵp 6).

Y dyfodol

6.5. Yr ardaloedd blaenoriaeth yn 2019-2020 ar gyfer cyflwyno “Gofyn a Gweithredu” (grwpiau 2 a 3) yw Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru ac wedyn Bae’r Gorllewin: Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Phen-y-bont ar Ogwr. Cymorth i Ferched Cymru fydd yn darparu hyn.

6.6. Bydd consortiwm Safelives a Hafan Cymru yn darparu hyfforddiant i staff rheng flaen darparwyr arbenigol a’u rheolwyr (grwpiau 4 a 5). Hyfforddir cohort cyntaf y ddau grŵp erbyn Mawrth 2019.

6.7. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi’i gontractio i ddarparu hyfforddiant i arweinwyr y sector cyhoeddus ac mae cynhadledd wedi’i chynllunio ar gyfer Mawrth 2019.

7. Dolenni i bob un o’r strategaethau lleol a gyhoeddwyd:

7.1. **Ymateb:** Mae dolenni i bob un o’r Strategaethau Lleol wedi’u cynnwys isod fel y gofynnwyd. Mae tair o’r wyth Strategaeth wedi’u datblygu ar ffurf Strategaeth Leol ar gyfer cyfnod o un flwyddyn. Mae’r pum strategaeth sy’n weddill wedi’u datblygu ar sail ranbarthol ac felly maent yn Strategaethau ar gyfer cyfnod o hyd at bum mlynedd.

- **Lleol: CBS Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

http://www.safernpt.org/1123

- **Lleol: Dinas a Sir Abertawe**

Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

https://democracy.swansea.gov.uk/ieIssueDetails.aspx?IId=26249&PlanId=0&Opt=3#AI22192&LLL=0

- **Lleol: Pen-y-bont ar Ogwr** – sylwer bod gwaith yn parhau â CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Cwm Taf i uno o 2019 ymlaen.

https://www.bridgend.gov.uk/media/3973/bridgend-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-strategy-2018-2019.pdf

- **Rhanbarthol: Rhanbarth Cwm Taf**

Bwrdd Iechyd Cwm Taf, CBS Merthyr Tudful, CBS Rhondda Cynon Taf

http://www.ourcwmtaf.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=286&mid=613&fileid=214

- **Rhanbarthol: Rhanbarth Gogledd Cymru**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, CBS Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, CBS Wrecsam

http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Strategies/assets-strategies/documents/North-Wales-Violence-Against-Women-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-Strategy-2018-2023.pdf

- **Rhanbarthol: Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Benfro, Cyngor Sir Powys

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213738/safer-lives-healthier-families-final-draft-mww-vawdasv-strategy-march-2018.pdf

- **Rhanbarthol: Rhanbarth Gwent**

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, CBS Blaenau Gwent, CBS Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Casnewydd, CBS Tor-faen

http://www.sewsc.org.uk/index.php?id=95

- **Rhanbarthol: Caerdydd a Bro Morgannwg**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg:

https://cardiff.moderngov.co.uk/ieDecisionDetails.aspx?AIId=11259

8. Manylion yr amserlen ar gyfer sefydlu'r model cyllido cynaliadwy.

8.1. **Ymateb:** Ailffurfiwyd y Grŵp Cyllido Cynaliadwy yn Hydref 2018 ac mae wedi cytuno ar egwyddorion cyllido. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn deillio o ffynonellau amrywiol iawn, nifer ohonynt heb eu datganoli, yn cynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac yn aml o ymddiriedolaethau elusennol a chyrff gwneud grantiau. Mae'r blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer y rhain yn amrywio'n fawr ac yn newid dros amser. Oherwydd hyn, cytunwyd y bydd y Grŵp Cyllido Cynaliadwy yn gweithredu fel grŵp sefydlog, yn hytrach na grŵp gorchwyl a gorffen, gan weithio ar sail yr egwyddorion cyllido a gytunwyd. Mae'r adran hon yn cysylltu â'r wybodaeth a ddarparwyd yn 2.7.1 a 2.7.2 yn y papur hwn.

9. Canllawiau ar gomisiynu

9.1. **Ymateb:** Cyflwynwyd fersiwn derfynol y canllawiau ar gomisiynu a oedd yn ymgorffori'r adborth a gafwyd o'r broses ymgynghori i'r Grŵp Cyllido Cynaliadwy ar 6 Rhagfyr 2018. Bwriedir dyroddi'r canllawiau yn ffurfiol yn

Ebrill 2019. Maent yn cael eu paratoi ar hyn o bryd i'w gosod gerbron y Cynulliad ac fe'u cyhoeddir yn Chwefror 2019.

9.2. Mae swyddogion yn cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn barod i weithredu'r canllawiau yn Ebrill 2019 a bydd y Grŵp Cyllido Cynaliadwy yn cynorthwyo yn y gwaith hwn.

10. Manylion unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn y dyfodol os na chyhoeddir strategaethau lleol erbyn y dyddiadau terfyn yn unol â'r Ddeddf. Yn y datganiad a wnaed gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd, dywedwyd nad oedd canlyniadau cyfreithiol "yn ymateb cymesur yn yr achos hwn", ar gyfer strategaethau a oedd heb eu cyhoeddi ar eu ffurf derfynol eleni, ond y byddai hynny'n bosibl "os na fydd yr amserlen yn cael ei bodloni mewn fersiynau pellach".

10.1. **Ymateb:** Bydd swyddogion yn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol i bennu'r canlyniadau i'r awdurdodau perthnasol os na fyddant yn cyhoeddi eu strategaethau lleol yn unol ag adrannau 5, 6, 7 ac 8 o'r Ddeddf a byddant yn diweddaru'r pwyllgor ar hyn maes o law.

10.2. Mae'r holl strategaethau lleol wedi'u cyhoeddi fel y nodwyd yn adran 7 o'r papur hwn. Mae rhai ar ffurf drafft, mae rhai hefyd wedi'u datblygu fel strategaethau lleol, ac eraill wedi'u datblygu'n strategaethau rhanbarthol.

10.3. Un o'r rhesymau dros beidio â chyhoeddi fersiynau terfynol y strategaethau yw'r awydd i sicrhau bod y Dangosyddion Cenedlaethol terfynol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u hadlewyrchu yn y camau gweithredu a mesurau arfaethedig.

10.4. Bydd swyddogion a'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cydweithio â'r awdurdodau perthnasol yn ystod 2019 i gynnwys y Dangosyddion Cenedlaethol terfynol a chryfhau'r strategaethau lleol. Cytunir ar ddyddiad terfyn ar gyfer cyhoeddi'r strategaethau lleol terfynol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau perthnasol.

11. Diweddariad am yr amserlenni ar gyfer y fframwaith cyflawni

11.1 **Ymateb:** Bydd y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol 2018-2021 yn cael ei diweddaru erbyn Mehefin 2019.

12. Drafft o'r data a fydd yn cael eu casglu yn rhan o'r Dangosyddion Cenedlaethol.

12.1. **Ymateb:** Lansiwyd yr ymgynghoriad ffurfiol ar y Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n ofynnol o dan adran 11 o'r Ddeddf ar 2 Ionawr 2018. Mae dolen isod i'r ymgynghoriad ac mae'r ddogfen ymgynghori wedi'i hatodi yn Atodiad 4.

https://beta.llyw.cymru/dangosyddion-cenedlaethol-drafft-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol?_ga=2.137702647.690964361.1547463220-2095969959.1547214544

13. Yng nghyd-destun y cyhoeddiad diweddar gan y Prif Weinidog am yr adolygiad o'r ddarpariaeth o lochesi, pa bryd y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n ystyried yr adolygiad yn ogystal â'r model cyllido cynaliadwy yn cwblhau ei waith?

13.1. **Ymateb:** Roedd y Prif Weinidog wedi comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) i gynnal yr adolygiad. Mae swyddogion wedi cwrdd â CPCC i ddechrau cwmpasu'r gwaith, a'r disgwyl yw y bydd yr adolygiad o'r ddarpariaeth o lochesi wedi'i gwblhau ymhen 3 i 6 mis. Mae cwmpas yr adolygiad o wasanaethau trais rhywiol yn cael ei gwblhau: mae hwn yn fwy cymhleth o lawer.

13.2. Mae gwaith y Grŵp Cyllido Cynaliadwy ar wahân i'r gwaith hwn ond bydd yn ystyried y canfyddiadau yn adolygiadau CPCC wrth barhau â'i waith.

14. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno cael gwybodaeth am y trefniadau dros dro ar gyfer gwasanaethau wrth iddo aros am eitemau o waith sydd heb eu cwblhau (er enghraifft, y canllawiau ar gomisiynu, cyflwyno addysg perthnasoedd iach, y dangosyddion cenedlaethol, a'r model cyllido cynaliadwy).

14.1. **Ymateb:** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Sefydliad Lloyds ddrafftio fersiwn o'i ganllawiau ar gomisiynu i'w defnyddio yng Nghymru er mwyn darparu ar gyfer yr amgylchiadau gwahanol yng Nghymru. Gwnaeth hyn ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru ac mae'r canllawiau yn sail i'r Canllawiau ar Gomisiynu Rhanbarthol y mae Byrddau Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u defnyddio ers eu cyhoeddi. Mae'r canllawiau ar Gomisiynu yn ychwanegu agwedd ranbarthol at hyn a fydd yn cynnwys rhwymedigaethau statudol. Mae'r rhanbarthau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi rhoi gwybod y byddent wedi'i chael yn anodd cwrdd â'r rhwymedigaethau hyn pe byddent wedi'u gweithredu'n gynharach. Rydym yn darparu grant bach iddynt i'w helpu i baratoi am gomisiynu.

14.2. Mae'n ofynnol i'r holl ysgolion uwchradd a gynhelir ddarparu addysg rhyw. Nid yw'n ofynnol i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw ond gallant wneud hynny, ac mae'n ofynnol i'r holl ysgolion fabwysiadu polisi ysgrifenedig ar ddarparu addysg rhyw.

14.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi canllawiau i ysgolion ar addysg rhyw a pherthnasoedd, yn ogystal â deunyddiau atodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i Hafan Cymru i ddarparu ei brosiect Sbectrwm i addysgu mewn ysgolion am berthnasoedd iach. Darperir cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith cyswllt gan yr heddlu mewn ysgolion i ddarparu addysg mewn ysgolion sy'n cynnwys camddefnyddio sylweddau a pherthnasoedd iach.

14.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau perthnasol i gydweithio i gomisiynu a chyllido gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Treialwyd y dull hwn o weithredu yng Ngwent yn 2015 yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf. Ers hynny, sefydlwyd chwe rhanbarth, wedi'u seilio ar batrwm y byrddau iechyd lleol, ac eithrio Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi parhau i gydweithio â Byrddau Iechyd Bae'r Gorllewin, Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro. O Ebrill 2019 disgwylir y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â rhanbarth Cwm Taf. Mae'r grant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei dalu drwy drefniadau rhanbarthol ar yr un sail. Mae'r rhanbarthau hyn hefyd yn adlewyrchu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a sefydlwyd o dan y rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r grant Cefnogi Pobl yn darparu cyllid helaeth i wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

14.5. Yr amcan wrth ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau oedd darparu dull mwy strategol o gyllido a chomisiynu gwasanaethau er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy. Ategwyd hyn drwy fframwaith comisiynu Sefydliad Lloyds a thrwy'r gwaith llywio gan y Grŵp Cyllido Cynaliadwy.

14.6. Rhan o waith y rhanbarthau yw cynnal dadansoddiad o anghenion i hwyluso comisiynu. Yn niffyg Dangosyddion Cenedlaethol, mae hyn wedi bod o gymorth i fesur cynnydd yn y rhanbarthau.

15. Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariadau bob tri mis gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, i gael sicrwydd ynghylch y cynnydd ar weithredu'r Ddeddf.

15.1. **Ymateb:** Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cynnig y byddant yn darparu diweddariadau rheolaidd fel y gofynnwyd fel a ganlyn:

- **Mawrth 2019**
- **Mehefin 2019**
- **Medi 2019**
- **Rhagfyr 2019**

Atodiad 1

Cynnydd ar Weithredu'r Ddeddf – Tachwedd 2018

1. Cynghorwyr Cenedlaethol

Gorffennaf 2015 – Penodi'r Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf, Rhian Bowen-Davies. Ymddiswyddodd Rhian yn hydref 2017.

Ebrill 2016 – **Cyhoeddi** Cynllun Blynyddol y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer 2016-17.

https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A24823174/document/versions/published

Mai 2016 – **Cyhoeddi** Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynghorydd Cenedlaethol. Y chwe mis cyntaf: Medi 2015 – 31 Mawrth 2016.

https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A15368282/document/versions/published

Ionawr 2018 – Estyn swydd y Cynghorydd Cenedlaethol i'w gwneud yn un amser llawn a phenodi Nazir Afzal a Yasmin Khan ar sail rhannu swydd.

Medi 2018 – **Cyhoeddi** Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynghorwyr Cenedlaethol newydd ar gyfer 2018 – 2019.

http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11746/gen-ld11746-w.pdf

Tachwedd 2018 - Paratoi Adroddiad Blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer 2019 -2020 - cyflwynodd y Cynghorwyr Cenedlaethol eu cynllun blynyddol o dan adran 22 o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi a'i rannu ag Aelodau Cynulliad yn Ionawr 2019.

2. Y Strategaeth Genedlaethol a'r Fframwaith Cyflawni

Tachwedd 2016 – Cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol bum mlynedd gyntaf (2016-21) gyda chwe amcan sy'n gyson ag egwyddorion Confensiwn Istanbwl.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/?lang=cy

Gorffennaf 2018 – **Cyhoeddi** Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n egluro sut y byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth i gyflawni pob un o'r amcanion yn ein Strategaeth Genedlaethol.

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-cy.pdf

3. Hyfforddi

Mehefin 2015 – Treialu Gofyn a Gweithredu ar ddau safle gyda 1,300 o weithwyr.

Medi 2015 – Lansio hyfforddiant e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Erbyn diwedd Mawrth 2018 roedd mwy na 127,000 o weithwyr yng Nghymru (yn cynnwys y rheini nad ydynt yn gweithio yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol neu hyfforddiant cyfatebol.

Mawrth 2016 – Cyhoeddi'r Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Roedd y rhain yn gosod safonau, ynghyd â thargedau i awdurdodau perthnasol a bwrsariaethau i ddarparwyr arbenigol. Mae 135,000 o staff y sector cyhoeddus wedi'u hyfforddi hyd yma, ac mae contract newydd wedi'i osod.

Ebrill 2017 – Awdurdodau perthnasol yn cyflwyno eu cynlluniau hyfforddi i Weinidogion Cymru yn unol â gofynion y canllawiau statudol. Defnyddir yr adroddiadau i fonitro gweithgarwch ar sail nodau cenedlaethol a rhanbarthol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Medi 2017 – Cam 2 y rhaglen genedlaethol i gyflwyno Gofyn a Gweithredu. Mae pum safle yn cymryd rhan bellach. Bydd y rhanbarth olaf yng Nghymru (Dyfed Powys) yn ymuno â'r rhaglen yn 2019-2020. Mae mwy na 1,800 o ymarferwyr eisoes wedi'u hyfforddi i "Ofyn a Gweithredu" a rhagwelir y bydd 4,000 o weithwyr proffesiynol ychwanegol yn cael eu hyfforddi yn ystod 2018-2019.

Mai 2018 – Awdurdodau perthnasol yn cyflwyno eu hadroddiadau blynyddol cyntaf ar hyfforddiant yn unol â gofynion y canllawiau statudol.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/national-training-framework/?lang=cy

https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=cy

4. Canllawiau

Hydref 2015 – Mae "Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru" yn disgrifio'r arferion rhagorol a geir ledled Cymru. Bydd y Canllaw yn helpu ac yn annog ysgolion i wneud mwy lle rydym yn credu bod angen hynny.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/good-practice-guide-a-whole-education-approach/?lang=cy

Mawrth 2016 – Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol – Roedd y canllawiau hyn yn gosod safonau a chyfres o ofynion i'w cyflawni gan yr awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darparu hyfforddiant a'i safonau mewn cysylltiad â'r materion hynny.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/national-training-framework/?lang=cy

Mawrth 2016 – Canllawiau i hybu ymwybyddiaeth llywodraethwyr ysgol – Mae'r canllaw yn cynnwys nifer y gamau y gall llywodraethwyr eu cymryd i wneud eu hysgolion yn fwy diogel.

https://gov.wales/docs/livefearfree/160316-governor-guide-cy.pdf

Mehefin 2016 – Adolygu'r adnoddau addysgu presennol sy'n ymwneud â pherthnasoedd iach a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn rhan o'r pecyn o fesurau addysg a ddatblygwyd i helpu i weithredu'r Ddeddf, comisiynwyd Cymorth i Ferched Cymru mewn partneriaeth ag AVA (Against Violence and Abuse) i ymchwilio a llunio pecyn o ddeunyddiau arferion gorau cymeradwyedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cyhoeddwyd y pecyn hwn i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr addysg gynradd, uwchradd a phellach.

https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?lang=cy

Awst 2016 – Pecyn Cymorth Sefydliad Lloyds – Canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol – Cyhoeddwyd pecyn comisiynu cydweithredol i Gymru gan Sefydliad Banc Lloyds, drwy gydweithio â gwasanaethau arbenigol, i gydnabod y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i weithredu Deddf 2015. Dosbarthwyd y pecyn hwn gan swyddogion i rwydweithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru ac mae wedi dod yn sail i'r canllawiau ar gomisiynu rhanbarthol.

https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/Domestic%20Abuse%20Toolkit_Wales_web.pdf

Mehefin 2017 - "Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru" – Mae'r Canllawiau yn cynnig cyngor ymarferol i weithwyr proffesiynol, a byddant yn arwain at well cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn.

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/170622-safeguarding-older-people-cy.pdf

Tachwedd 2017 – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Perthnasol ar y broses Gofyn a Gweithredu – Bydd y canllawiau hyn yn helpu ymarferwyr a rheolwyr i weithredu'r broses 'Gofyn a Gweithredu' yn eu hawdurdod perthnasol.

https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=cy

Chwefror 2018 – Canllawiau Statudol ar Strategaethau Lleol – Lluniwyd y Canllawiau i helpu i ddatblygu strategaethau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/180317-guidance-for-local-strategies-cy.pdf

Mawrth 2018 – Cyhoeddi Canllawiau drafft ar Gomisiynu Rhanbarthol ar gyfer ymgynghori – Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2018. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Mehefin 2018.

https://beta.gov.wales/draft-guidance-commissioning-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-services

Mehefin 2018 – Datblygu – Mae'r Canllawiau ar Gomisiynu Rhanbarthol wedi cael eu diwygio yn dilyn yr ymgynghoriad ac fe'u cyhoeddir erbyn Chwefror 2019. Byddant yn dod yn statudol yn Ebrill 2019.

5. Helpu i Gynllunio a Darparu ar sail Anghenion

Rhagfyr 2017 – Cyflwyno Cynlluniau Rhanbarthol er mwyn rhoi trefniadau rhanbarthol ar waith – Ar hyn o bryd, mae'r rhanbarthau'n cydweithio â rhanddeiliaid i gynnal dadansoddiad o anghenion a bylchau ar gyfer eu Cynlluniau Cyflawni Blynyddol 2019-2020 ar gyfer y grant refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mai 2018 – Cyflwyno strategaethau lleol cyntaf yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol fel cynlluniau rhanbarthol. Mae dolenni i bob strategaeth yn adran 7 o'r prif bapur.

6. Plant a Phobl Ifanc

Medi 2015 – Prosiect cyfranogi ieuenctid a oedd yn delio â materion sy'n ymwneud ag arferion diwylliannol niweidiol

Rhagfyr 2015 – Cynhadledd Addysg Genedlaethol – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Busnes Pawb

Mehefin 2016 – Comisiynwyd Estyn i gynnal adolygiad o'r addysg bresennol mewn ysgolion ar berthnasoedd iach

Chwefror 2017 – Panel Arbenigol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd – Sefydlwyd y panel arbenigol i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm Rhyw a Pherthnasoedd ar gyfer y dyfodol yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, ac i nodi materion a chyfleoedd a all gyfrannu at benderfyniadau ynghylch helpu'r proffesiwn addysgu i ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ragorol yn fwy effeithiol mewn ysgolion.

Mehefin 2017 – Cyhoeddi "Adolygiad o addysg perthnasoedd iach" gan Estyn.

Ionawr 2018 – Adroddiad ac argymhellion gan y Panel Arbenigol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/kirsty-williams-announces-focus-on-healthy-relationships-in-major-reforms-to-relationships-and-sexuality-education/?lang=cy

7. Cyflawnwyr Trais

Ionawr 2018 – Prosiect braenaru Gwent yn mapio gwasanaethau i gyflawnwyr trais

Ionawr 2018 – Dogfen cychwyn ar gyfer prosiect sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig ar gyfer y ffrwd waith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y Fframwaith er mwyn hyrwyddo newid cadarnhaol ymysg y rheini sydd mewn perygl o aildroseddu.

Ebrill 2018 – Lansio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyflawnwyr Trais i rannu arferion da a materion sy'n codi

Rhagfyr 2018 – Lansio'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau i Gyflawnwyr Trais. Mae'r Safonau hyn wedi'u bwriadu i'w defnyddio gan **gomisiynwyr** a **gwasanaethau** wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu, darparu, gwerthuso a chomisiynu (neu ddatgomisiynu) gwasanaethau i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181206-vawda-perpetrator-service-standards-cy.pdf

8. Ymgysylltu â Goroeswyr

Mawrth 2018 – Cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr ar gyfer ymgynghori.

https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/national-survivor-engagement-framework?skip=1&lang=cy

Medi 2018 – Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae prosiect wedi'i gynnal i ddarparu dau brif weithgarwch:

- gwella'r gynrychiolaeth gan oroeswyr drwy ymgysylltu yn y dyfodol drwy gynnal ymchwil sylfaenol ymysg y grwpiau goroeswyr hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y canfyddiadau o waith blaenorol i ymgysylltu â goroeswyr;
- cynllun peilot ar raddfa fach ar gyfer panel cenedlaethol ar ymgysylltu â goroeswyr.

Bydd y cynllun peilot yn rhedeg tan fis Mawrth 2019 a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer ymarfer yn y tymor hwy ar ôl asesu'r canfyddiadau. Edrychaf ymlaen at rannu'r canlyniadau maes o law.

2019 Yn cael eu datblygu:

- Bydd y comisiwn a'r Panel Cenedlaethol ar Oroeswyr yn cael eu datblygu ymhellach.

- Cynhelir dau weithdy ym mis Ionawr a mis Chwefror eleni gyda rhanddeiliaid a goroeswyr a fydd yn cyfrannu at y cynllun peilot ac at ddatblygu'r offer casglu data a'r fframwaith canlyniadau

1. Bydd adroddiad ar ganfyddiadau newydd yn cael ei rannu â'r tîm polisi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn haf 2019. Cyhoeddir yr adroddiad ymchwil terfynol yng ngaeaf 2019. Bydd yn gwneud argymhellion ynghylch datblygu dangosyddion a phrosesau ar gyfer casglu a defnyddio data llinell sylfaen a chanlyniadau ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol i Oroeswyr yn y dyfodol.

9. Dangosyddion Cenedlaethol

Mai 2017 – Gwaith datblygu mewnol ac allanol i ddod o hyd i ffynonellau data i'w hystyried wrth lunio mesurau.

Medi 2018 – Llunio a thrafod Dangosyddion Cenedlaethol drafft mewn gweithdy mewnol gyda mewnbwn ar draws llywodraeth.

Hydref 2018 – Trafod a diwygio'r Dangosyddion Cenedlaethol drafft mewn gweithdy allanol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn eu cwblhau ar gyfer yr ymgynghoriad agored.

Ionawr 2019 – Lansio'r Ymgynghoriad ar Ddangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Hwn fydd y cam cyntaf tuag at bennu set gyflawn a dibynadwy o ddangosyddion cenedlaethol.

https://beta.llyw.cymru/dangosyddion-cenedlaethol-drafft-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol?_ga=2.109234626.690964361.1547463220-2095969959.1547214544

10. Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig

Mehefin 2018 – Cwblhawyd adroddiad ar Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig gan wneud argymhellion ar gyfer mwy o integreiddio ag adolygiadau o farwolaethau eraill. Mae swyddogion wedi adolygu'r adroddiad a'r argymhellion er mwyn cynghori Gweinidogion a cheisio cytundeb ar y camau nesaf. Cyflwynir yr adroddiad i Weinidogion i'w ystyried erbyn Chwefror 2019, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

11. Cyfathrebu a Hybu Ymwybyddiaeth

Medi 2015 – Prosiect Cyfranogi Ieuenctid i hybu ymwybyddiaeth o arferion diwylliannol niweidiol

Mawrth 2017 – Sefydlu grŵp cyfathrebu rhanddeiliaid, yn cynnwys cynrychiolaeth gan oroeswyr, i gyfrannu at ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu

Ionawr 2018 – Lansio ymgyrch "Dyma fi" i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhywedd – Roedd yr ymgyrch "Dyma fi" wedi arwain at gynnydd o fwy na 6,000% yn y defnydd o wefan Byw Heb Ofn. Roeddem wedi cyrraedd 7 miliwn o argraffiadau drwy hysbysebion teledu a radio ac wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Ebrill 2018 – Lansio ymgyrch "Paid Cadw'n Dawel" sy'n tynnu sylw at yr effaith bellgyrhaeddol o ymyrraeth gadarnhaol ar ddioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Atodiad 2: Dogfennau Allweddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (nid yn nhrefn amser)

Teitl	Dolen we (os yw ar gael)	Disgrifiad
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents	Deddfwriaeth arloesol Cymru sy'n ceisio gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/?lang=en	Mae'n egluro sut y bydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gweithredu.
Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol	https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-cy.pdf	Mae'r Fframwaith Cyflawni, sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth, yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol ar gyfer gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (FfHC) ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/national-training-framework/?lang=cy	Mae'r FfHC yn ganllawiau statudol sy'n pennu cyfres o ofynion i'r awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf mewn perthynas â darparu hyfforddiant a safonau hyfforddi mewn perthynas â'r materion hynny.

Canllawiau ar y broses Gofyn a Gweithredu	https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=cy	Canllawiau i ymarferwyr a rheolwyr ar weithredu'r broses 'Gofyn a Gweithredu' (Grwpiau 2 a 3 yn y FfHC). Mae Canllawiau drafft wedi'u cyhoeddi; cyhoeddir Canllawiau Statudol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 19/20.
Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru	https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/good-practice-guide-a-whole-education-approach/?lang=cy	Mae'r canllaw hwn yn cydnabod bod lleoliadau addysg yn bwysig fel amgylcheddau lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb rhywedd a pherthnasoedd iach llawn parch drwy ddull o weithredu seiliedig ar hawliau.
Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	https://beta.llyw.cymru/dangosyddion-cenedlaethol-drafft-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol?_ga=2.71106647.690964361.1547463220-2095969959.1547214544	Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn gyfrifol am lunio dangosyddion cenedlaethol i asesu cynnydd ar weithredu'r Ddeddf hyd yma.
Pecyn Cymorth i ysgolion sy'n cyflwyno adnoddau ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?lang=cy	Mae'r pecyn cymorth, yr wybodaeth a'r canllawiau hyn yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n arddangos yr arferion gorau, er mwyn i ddarparwyr addysg gynradd, uwchradd ac addysg bellach eu defnyddio yn eu lleoliadau addysg.

Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynghorydd Cenedlaethol. Y chwe mis cyntaf: Medi 2015 – 31 Mawrth 2016.	https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A24854892/document/versions/published	Adroddiad Blynyddol Rhian Bowen-Davies ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2015 - 2016
CYNLLUN BLYNYDDOL Y Cynghorydd Cenedlaethol ar ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A24823174/document/versions/published	Cynllun Blynyddol Rhian Bowen-Davies ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2016 - 2017 – mae'n egluro'r blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer y Cynghorydd Cenedlaethol
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORWYR CENEDLAETHOL 2018 TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL Cyfieithu Fframwaith Cenedlaethol yn Atebion Cynaliadwy	http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11746/gen-ld11746-w.pdf	Adroddiad Blynyddol Nazir Afzal a Yasmin Khan ar gyfer y chwe mis cyntaf ar ôl ymgymryd â'r swydd - Ionawr 2018 - Mehefin 2018

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Canllawiau i Lywodraethwyr Ysgol	https://gov.wales/docs/livefearfree/160316-governor-guide-cy.pdf	Canllaw i hysbysu llywodraethwyr ysgolion am faterion sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r angen i roi polisi priodol ar waith i helpu staff i adnabod arwyddion camdriniaeth a gwybod sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain, er mwyn cynorthwyo eu cydweithwyr a'r bobl ifanc yn eu hysgol.
Pecyn Cymorth i Ysgolion sy'n cyflwyno adnoddau a deunyddiau addysgol	https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?lang=cy	Adolygiad o'r adnoddau addysgu presennol ynghylch perthnasoedd iach a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fel rhan o'r pecyn o fesurau addysg sy'n cael eu datblygu i'n helpu i weithredu'r Ddeddf, cafodd Cymorth i Ferched Cymru, ar y cyd ag AVA (Against Violence and Abuse), eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ddeunyddiau. Y nod oedd casglu ynghyd y deunyddiau am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn becyn cymeradwy i'w ddefnyddio fel yr ymarfer gorau. Cyhoeddwyd y rhain i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr addysg gynradd, uwchradd, ac addysg bellach.

Tackling Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence: A Collaborative Commissioning Toolkit (Lloydsbankfoundation Toolkit)	https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/Domestic%20Abuse%20Toolkit_Wales_web.pdf	Lluniwyd y pecyn cymorth hwn gan Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyd ag elusennau sy'n arbenigo mewn trais yn erbyn menywod yn y DU. Ei nod yw helpu asiantaethau yng Nghymru i gydweithio i ddarparu dull effeithiol o gomisiynu i sicrhau llesiant pawb sy'n profi effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y dyfodol.
Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru	https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/170622-safeguarding-older-people-cy.pdf	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r profiad o gam-drin domestig ymysg pobl hŷn.
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol	https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/180317-guidance-for-local-strategies-cy.pdf	Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid i ddatblygu strategaethau lleol sy'n cydymffurfio â gofynion a dibenion y Ddeddf. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn fel sail i gynllunio, datblygu ac adolygu'r strategaethau lleol sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Canllawiau drafft ar gomisiynu gwasanaethau mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru	https://beta.llyw.cymru/canllawiau-drafft-ar-gomisiynu-gwasanaethau-mewn-perthynas-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin?_ga=2.72141012.690964361.1547463220-2095969959.1547214544	Bydd y canllawiau'n hybu comisiynu mewn ffordd safonol gydweithredol sy'n cynnig gwasanaethau sy'n fwy cyson ac effeithiol er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu a chefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Cyhoeddir y fersiwn derfynol yn Chwefror 2019
Adroddiad ac argymhellion gan y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd	https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/kirsty-williams-announces-focus-on-healthy-relationships-in-major-reforms-to-relationships-and-sexuality-education/?skip=1&lang=cy	Adroddiad ac argymhellion i'w hystyried wrth ddatblygu'r Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais	https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181206-vawda-perpetrator-service-standards-en.pdf	Bwriadwyd i'r Safonau hyn gael eu defnyddio gan **gomisiynwyr** a **gwasanaethau** wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu, darparu, gwerthuso a chomisiynu (neu ddatgomisiynu) gwasanaethau i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.
Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr	https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/national-survivor-engagement-framework?skip=1&lang=cy	Diben y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr yw sicrhau bod anghenion a phrofiadau goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys y goroeswyr sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf, y rhai sy'n wynebu anfanteision lluosog wrth gael cymorth a chefnogaeth, yn hysbys. Mae'n bwysig hefyd fod y rhai y mae'r polisi'n cael ei lunio ar eu cyfer yn gallu dylanwadu ac arwain y polisi hwnnw a rhannu'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw.

Dangosyddion cenedlaethol drafft ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	https://beta.llyw.cymru/dangosyddion-cenedlaethol-drafft-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol?_ga=2.29098363.690964361.1547463220-2095969959.1547214544	Er mwyn i ni allu cyflawni'r amcanion hyn ar y cyd mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni i gyd allu gweld a yw pethau'n gwella i Gymru gyfan. Dyna pam y mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r dangosyddion hyn gael eu "cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon". Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r set arfaethedig o Ddangosyddion Cenedlaethol ac mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Atodiad 3: Cyllideb a Chyllid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Llinell gyllido	Disgrifiad byr	Cyfanswm
Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau a Gweinyddu Canolog Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol		
Awdurdod Lleol	Cyllid i'w ddyrannu i Fyrddau Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i'w cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y rheng flaen.	**£1,937,730**
Trydydd Sector		
• Cymorth i Ferched Cymru	Cymorth i gyflawni'r agenda ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ledled Cymru, yn cynnwys y prosiect Children Matter.	**£564,538**
• BAWSO	Gweithgarwch i gynnal trafodaethau, darparu hyfforddiant a chymorth a hybu ymwybyddiaeth ynghylch Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod; trais ar sail anrhydedd; priodas dan orfod; a chaethwasiaeth fodern.	**£446,000**
• Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru	Prosiect sy'n cael ei ddarparu mewn ysgolion ledled Cymru i addysgu plant am berthnasoedd iach, am gam-drin, ei ganlyniadau a ble i ofyn am gymorth.	**£376,282**
• Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach	Darparu llinell gymorth Dyn Wales i gynorthwyo dioddefwyr gwrywaidd ledled Cymru, ac IDSVA penodedig ar gyfer dynion sy'n byw yn Ne Cymru; a	**£65,000**
• Llwybrau Newydd	Cymorth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sy'n profi effaith trais rhywiol neu sydd mewn perygl o'i phrofi. Gweithio ym maes trais rhywiol a masnachu mewn pobl a chwnsela plant a phobl ifanc ledled De, Canolbarth a Gorllewin Cymru.	**£73,000.00**
Staffio	**Y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth**	**£222,199**

	Mae deiliad y swydd yn parhau i weithio i greu mwy o ymgysylltu â'r sector preifat ac i noddi camau gweithredu i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. **Swyddog Arweiniol ar FGM, HBV ac FM** Mae'n delio â materion FGM, HBV ac FM sydd heb eu datganoli, i gynnal perthnasoedd gweithio ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn allanol ag Adrannau Whitehall a sefydliadau allweddol yn y trydydd sector. **Cynghorwyr Cenedlaethol** Yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rôl statudol sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion i gynghori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth iddynt ddelio â'r materion hyn.	
Cyhoeddusrwydd	Contract am asiantaeth gwasanaeth llawn am dair blynedd o fis Gorffennaf 2017. Mae sgiliau arbenigol fel cynllunio a phrynu cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus â defnyddwyr, animeiddio, hysbysebu ar deledu a thargedu digidol ar gael drwy asiantaeth gwasanaeth llawn yn unig. Gweithgarwch i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod a diwrnod Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd 2018 ac i gefnogi gwaith dan arweiniad y gymuned i hyrwyddo'r ymgyrchoedd 'Dyma fi' a 'Paid Cadw'n Dawel'.	**180,000**
Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (FfHC)	**<u>FfHC</u>** Rhoddwyd y cyllid ar sail ddangosol 5 mlynedd – un flwyddyn ar gyfer mabwysiadu cynnar yn 2015-16, ac wedyn 2-4 blynedd hyd at 2019-20 ar gyfer parhad a darparu ar sail	**£270,000**

	genedlaethol. **<u>Grwpiau FfHC 4, 5 a 6</u>** Hyfforddiant dros gyfnod o 18 mis gyda'r dewis i'w estyn am 12 mis ychwanegol. Roedd y contract i gael ei ddyfarnu yn Hydref 2018 a'r dyddiad terfyn yw Mawrth 2021	
Contract Byw Heb Ofn	Mae'n cyllido gwefan a llinell gymorth Byw Heb Ofn i ddarparu cymorth cyfrinachol, gwybodaeth a chyngor bob awr o'r dydd a'r nos i fenywod, dynion a phlant sy'n cael eu cam-drin, eraill sy'n pryderu a gweithwyr proffesiynol.	**£455,000**
Gwerthuso Byw Heb Ofn	I sicrhau y bydd modd darparu tystiolaeth am ganlyniadau'r gwasanaeth llinell gymorth yn y dyfodol ac asesu ei effaith.	**15,000**
Secondiadau – Secondiad/cytundeb cydweithio ar Stelcio, Aflonyddu ac Adolygu Dynladdiadau Trais Domestig yng Nghymru	Secondiwyd Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed Powys, Liane James, i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2017 am gyfnod o 12 mis. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Heddlu Dyfed Powys i rannu cost y secondiad 12 mis. Daeth y secondiad i ben ym Medi 2018.	**£45,733**
Trais Rhywiol	Cymorth untro a fydd yn darparu gwasanaethau gwell tan ddiwedd y flwyddyn hon er mwyn lleihau aros am gyfnod hir.	**£150,000**
Gwaith Cymorth i Gyflawnwyr Trais	• Ymyrraeth Deulu-ganolog Cyfle i ddarparu ar sail arian cyfatebol gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru. Bydd y grant yn ariannu prosiect ymyriadau teuluol a fydd yn gweithio gyda'r teulu cyfan lle nodwyd bod cam-drin domestig a bod y teulu'n aros gyda'i gilydd. Mae hon yn bartneriaeth â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a fydd yn hwyluso'r asesu ar ymyriadau a gynhelir yng	**£57,518**

	Ngharchar Abertawe a Charchar Caerdydd. • *Any Man Can* Darparu dull ymyrraeth gynnar/ataliol sy'n ymchwilio i ddeallusrwydd emosiynol ac yn darparu fforwm i ddynion ddeall eu hemosiynau a'u hymddygiadau cysylltiedig. Nid yw'n rhaglen ar gyfer cyflawnwyr trais yn benodol, ond ar gyfer yr holl ddynion: • y mae eu hagweddau a chredoau yn tynnu sylw pobl eraill ac yn peri pryder; • a all fod yn gysylltiedig â thrais y tu allan i'r cartref; • a all fod yn rhywiaethol neu'n coleddu credoau cryf am rywedd; • a all fod yn gamdriniol ar adegau; • nad ydynt yn barod i gydnabod graddau'r cam-drin neu drais yn y cartref neu'r risg y maent yn ei hachosi; neu • a all wadu eu bod yn gyflawnwyr trais ond sydd am fod yn well tadau neu bartneriaid. • Lansio'r Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn digwyddiad ar 6 Rhagfyr 2018	
Ymgysylltu â Goroeswyr	Astudiaeth ymchwil ar raddfa fach i gael gwell dealltwriaeth o farn ac anghenion y grwpiau hynny o oroeswyr nad yw'r gweithgareddau ymgysylltu a'r ymgynghoriad wedi eu cyrraedd yn effeithiol hyd yma. Y bwriad yw y bydd y canfyddiadau o'r astudiaeth ansoddol hon yn ategu'r	**£45,000**

	gwaith o ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr ac yn sail i gynllunio dull cenedlaethol o gynnwys goroeswyr wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys: • Ymchwil sylfaenol ymysg y grwpiau hynny o oroeswyr sydd wedi'u tangynrychioli yn y canfyddiadau o waith blaenorol i ymgysylltu â goroeswyr; • Datblygu a rhoi prawf ar offer casglu data a fframwaith canlyniadau a mesurau i werthuso cynllun peilot Panel Cenedlaethol o Oroeswyr.	
Datblygu Rhanbarthol	Cynnal comisiynu rhanbarthol cydweithredol a chwrdd â gofynion y canllawiau statudol ar gomisiynu yn 2019	**£95,000**
Adroddiadau Buddsoddi Cyfalaf	Roedd tîm ystadau Llywodraeth Cymru wedi ein cynghori i gomisiynu dadansoddiad buddsoddi o ddau gais grant cyfalaf uchel eu gwerth ar gyfer adnewyddu er mwyn cael gwybod am y gwerth cyn ac ar ôl ymgymryd â'r gwaith adnewyddu. Bydd hyn yn caniatáu i ni gadarnhau a yw'r buddsoddiadau'n fuddiol.	**£2,000**

Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cyllido Canolfannau Atgyfeirio Cam-drin Rhywiol	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	**£35,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	**£32,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	**£29,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	**£18,000**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	**£8,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	**£23,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	**£42,000**

Atodiad 4:

Rhif: WG36722

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018
Camau i'w cymryd: 29 Mawrth 2019

Trosolwg

Rydym am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru er mwyn creu cenedl a chymdeithas sy'n llewyrchus, yn gydlynus, yn iachach ac yn fwy cyfartal. All hynny ddim ond digwydd os bydd unigolion a grwpiau yn ein cymunedau'n gallu byw heb drais a chamdriniaeth.

Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais o'r fath a bu'n destun craffu trylwyr drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Yn ystod 2018, mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhanddeiliaid allanol y Sector Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, wedi bod yn datblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol i Gymru a fydd yn mesur cynnydd yn erbyn diben y Ddeddf.

Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar sail y gwaith datblygu cynnar a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dangosyddion Cenedlaethol yn 2016, dan arweiniad y Cynghorydd Cenedlaethol blaenorol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein cynigion drafft ar gyfer rhestr o ddangosyddion cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sut y gallwch gyflwyno eich safbwyntiau arnynt. Dyma'r cam cyntaf tuag at nodi cyfres gyflawn, gynhwysol a chadarn o Ddangosyddion Cenedlaethol.

Mae'r hyn y gellir ei gynnwys yn y Dangosyddion Cenedlaethol wedi'i gyfyngu gan y data sydd ar gael i'w mesur yn ei erbyn. Yn rhan o'n hymgynghoriad ar y dangosyddion, felly, byddwn yn ceisio cael gwybod a oes rhagor o ffynonellau data nad ydym eto wedi'u nodi, neu a allwn ddatblygu ffynonellau data newydd i'w cynnwys yn y Dangosyddion Cenedlaethol yn y dyfodol.

Sut i ymateb

Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Ceir cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau wedi'u crynhoi mewn Holiadur yn Atodiad A.

Os ydych yn cynnig dangosydd diwygiedig neu ddangosydd sy'n disodli un o'r dangosyddion a gynigir yn y ddogfen hon defnyddiwch y ffurflen sydd yn Atodiad B.

Anfonwch eich ymatebion drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriadau isod:

Manylion cysylltu:

Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Yr Is-adran Gymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
e-bost: VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted

Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:
https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy-v1.pdf

Fframwaith Cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:
https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-cy.pdf

Manylion Cysylltu

I gael mwy o wybodaeth anfonwch e-bost at:
VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Rhagair

- Os oes angen, gallwch gynnwys Rhagair a fydd yn rhoi cyflwyniad i'r ymgynghoriad gan y Gweinidog, ac ati. Os nad oes angen yr adran hon, dilëwch hi.

- Ar ôl y rhagair, dylid rhoi crynodeb byr – heb fod yn hwy na thair tudalen – cyn y cwestiynau.

Rhowch bennawd yn gofyn - beth yw'r prif faterion? - neu rywbeth tebyg

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn? Os oes materion sy'n gwrthdaro â'i gilydd, nodwch nhw'n gryno. Os oes angen, rhowch ddolenni gwe/cyfeiriadau tudalen manwl at atodiadau manylach ynglŷn â'r ymgynghoriad.

Rhowch bennawd yn gofyn – ble'r ydym ni nawr? – neu rywbeth tebyg

Beth yw'r sefyllfa bresennol? Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.

Rhowch bennawd yn ymwneud â'r dystiolaeth o blaid newid

Pam rydyn ni'n cynnig newid? Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.

Rhowch bennawd ar gyfer y cynigion

- Pa newidiadau penodol rydyn ni'n eu cynnig?
- Pa opsiynau rydyn ni'n eu hystyried?
- Beth yw'r canlyniadau rydyn ni'n eu disgwyl?
- Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.
- Mae pwyntiau bwled yn syniad da

1. Beth yw pwnc trafod yr ymgynghoriad?

Cefndir

Mae camau breision wedi'u cymryd ers cyflwyno'r Ddeddf i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda phobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Mae gwaith amlasiantaeth yn beth cyffredin ac mae trydydd sector arbenigol sy'n gryf ac wedi'i broffesiynoli yn gweithio ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau hanfodol ledled Cymru.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n cyflawni'r gofynion yn adran 3 o'r Ddeddf, yn 2016 ac mae'n adeiladu ar ein cynnydd ar y cyd hyd yma, ac yn blaenoriaethu darpariaeth ym meysydd atal, diogelu, a darparu cymorth, yn unol â diben y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn amlinellu'r chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl eu cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021 ac maent wedi'u trefnu i fod yn gyson â chyflawni diben y Ddeddf, sef gwella:

Trefniadau ar gyfer **Atal** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru

Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Trefniadau ar gyfer **Amddiffyn** dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Cymorth i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd

Er mwyn i ni allu cyflawni'r amcanion hyn ar y cyd mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni i gyd allu gweld a yw pethau'n gwella i Gymru gyfan. Dyna pam y mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r dangosyddion hyn gael eu "cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon".

Gellir eu mynegi fel gwerth neu nodwedd y gellir eu mesur yn feintiol (e.e. rhif) neu'n ansoddol (e.e. ansawdd rhywbeth) yn erbyn canlyniad penodol. Gallant hefyd fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.
Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r dangosyddion, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan a byddant yn ein galluogi i ddeall y cyfraniad y mae pawb yn ei wneud. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r cynigion drafft ar gyfer dangosyddion cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, y meini prawf a ddefnyddiwyd i nodi dangosyddion posib (mae'r rhain ar gael yn Adran 3 y ddogfen hon) a sut y gallwch gymryd rhan.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gyfle i awgrymu gwelliannau i'r dangosyddion a/neu'r mesurau a gynigir a sut i awgrymu dangosyddion a/neu fesurau amgen.

Os hoffech gynnig dangosydd ychwanegol rydym wedi darparu templed i chi ei gwblhau. Bydd angen i chi egluro'n glir y rhesymau pam mai'r dangosydd rydych chi wedi'i gynnig sy'n mesur y Ddeddf orau a pham y byddai'n disodli neu'n gwella dangosydd a gynigir. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y dangosyddion a bennir yn y pen draw yn gyfyngedig o ran nifer, yn gydlynol ac yn rhai y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio. Bydd cadw'r nifer yn rhesymol (h.y. o leiaf un a hyd at dri dangosydd i bob amcan) yn helpu'r cyhoedd i weld a yw'r 6 amcan a bennwyd yn cael eu cyflawni. Fe'ch anogir yn gryf i gyfeirio at yr egwyddorion datblygu a nodir yn Adran 2 a'r meini prawf datblygu a nodir yn Adran 3.

1.1 Sut y bydd y dangosyddion yn cael eu defnyddio?

Mae'r dangosyddion yn ffordd bwysig o fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni diben y Ddeddf ledled Cymru gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y cynnydd yng Nghymru tuag at gyflawni'r 6 amcan, gan ddefnyddio'r dangosyddion cenedlaethol. Dyma'r 'Adroddiad Blynyddol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol', a chyhoeddir y cyntaf o'r rhain yn y flwyddyn ariannol ar ôl cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

2. Egwyddorion Datblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol

Un o'r egwyddorion allweddol wrth ddatblygu'r dangosyddion cenedlaethol yw sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Dangosyddion Llesiant a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'u bod yn mynd law yn llaw â nhw. Er mwyn datblygu set gydlynol a chyson o ddangosyddion, cytunwyd y byddai egwyddorion arweiniol wrth wraidd y gwaith datblygu. Mae'r egwyddorion isod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar ran Gweinidogion Cymru wrth i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ddatblygu'r Dangosyddion Llesiant, ond nid ydynt yn dyblygu'r gwaith hwnnw'n llwyr. Defnyddiodd eu gwaith dystiolaeth ryngwladol a oedd yn tynnu sylw at yr her o ran cynllunio dangosyddion effeithiol.

2.1 Egwyddorion ar gyfer mesur y peth iawn

Dylai'r dangosyddion fesur canlyniadau.
Dylai'r canlyniadau olygu rhywbeth i'r cyhoedd a bod yn bwysig iddynt.
Dylid pennu nifer cyfyngedig o Ganlyniadau a Dangosyddion: dim mwy na 6 phrif ganlyniad a dim mwy na 4 dangosydd i bob canlyniad.
Dylai'r dangosyddion ffurfio cyfres gydlynol y gellir ei chyfiawnhau ar sail rhesymeg a naratif ar gyfer yr hyn y mae'n ei olygu i Gymru.
Mae angen i'r canlyniadau gyd-fynd â dangosyddion/fframweithiau canlyniadau cenedlaethol.
Mae'r dangosyddion yn ymdrin â phob math o drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'u diffinnir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

2.2 Egwyddorion ar gyfer mesur y ffordd iawn

Cyfathrebu'n Effeithiol	Dylai fod yn bosib crynhoi'n fras yr hyn y mae'r dangosyddion yn ei fesur mewn ffordd y bydd y cyhoedd yn ei deall yn syth.
	Dylai'r dangosyddion olygu bod modd gwneud cymariaethau dros amser. Dylai'r cymariaethau fod yn ddilys hyd yn oed wrth i bolisïau neu ddulliau o gasglu data newid, dylai ffynonellau diogel o ddata fod ar gael a dylai gwerth y dangosydd allu newid dros amser.
	Mae angen i bob cynulleidfa gredu bod y dangosydd mewn gwirionedd yn mesur y canlyniadau'n effeithiol ac yn ddibynadwy, a dylai gwahanol grwpiau ddeall y dangosydd yn yr un ffordd. Gall fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.
	Mae'n rhaid i'r dangosyddion ddarparu gwybodaeth gyfoes, a hynny'n ddigon aml, er mwyn gallu llunio barn am gynnydd a rhoi camau priodol ar waith.
	Mae'n rhaid dewis a chynllunio'r dangosyddion er mwyn peidio ag annog camau sy'n gwella'r dangosydd ar draul y canlyniadau ehangach.
Cywirdeb	Lle y defnyddir data o arolygon, dylid dangos bod yr ymatebwyr yn rhoi atebion cyson i'r cwestiwn ar wahanol adegau.
	Ni ddylai'r dangosyddion fod yn seiliedig ar samplau y mae ystadegwyr yn barnu eu bod yn rhy fach i gyfiawnhau casgliadau am y canlyniad sy'n cael ei fesur.
	Lle y bo modd, dylai'r dangosyddion gynnwys Ystadegau Swyddogol sydd ar gael eisoes, neu sydd o leiaf wedi'u profi ac y cafwyd eu bod yn briodol at ddibenion dadansoddi.
	Gall ffynonellau'r data newid i sicrhau bod y data mwyaf cywir ar gael yn ystod oes y dangosyddion hyn.
Cydbwysedd	Dylai'r gyfres gyfan gynnwys dangosyddion goddrychol yn ogystal â rhai gwrthrychol.
	Gall y gyfres gyfan gynnwys dangosyddion sy'n

	seiliedig ar ddata ansoddol yn ogystal â meintiol.
Dichonoldeb	Mae'n dda o beth bod y data ar gael, ond nid yn hanfodol. Ystyrir casglu data o'r newydd os yw cwmpas y data sydd ar gael yn annigonol a/neu os yw'n anghyson.

3. Y Meini Prawf ar gyfer Datblygu Dangosyddion Cenedlaethol

Rydym wedi defnyddio'r egwyddorion uchod i gynllunio ac i ddefnyddio'r meini prawf isod sy'n sail i'n holl waith i ddatblygu ein dangosyddion cenedlaethol yng nghyswllt y Ddeddf.

3.1 Nodi nifer fach o ddangosyddion perthnasol

Rydym am sicrhau ein bod yn mesur yr agweddau pwysicaf a fydd yn ein galluogi i ddeall y cynnydd a wneir yng Nghymru a mynegi hynny.

3.2 Mesurau sy'n ystyrlon

Dylai'r dangosyddion ddod â data cymhleth ynghyd ar ffurf sy'n ystyrlon i bobl sy'n gweithio yn y maes, llunwyr polisi a'r cyhoedd. Dylai'r dangosyddion lywio a dylanwadu ar benderfyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghylch strategaeth, polisi a darpariaeth gwasanaethau yn unol â diben y Ddeddf a byddant yn seiliedig ar y 3 colofn sydd ynddi;

Atal	Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu hatal lle bynnag y bo modd a cheir adnabod ac ymyrraeth gynnar i gyfyngu ar y niwed i ddioddefwyr a goroeswyr.
Amddiffyn	Mae prosesau addas ac effeithiol ar waith i amddiffyn pob unigolyn sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Cymorth	Gall unigolion sy'n dioddef unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael cymorth priodol o safon uchel ble bynnag y maent yng Nghymru.

3.3 Dylent fod yn gydlynol a chyd-fynd â'i gilydd

Dylai'r dangosyddion fod yn gyson ac yn gydlynol, ac yn ogystal â chefnogi ei gilydd, dylent gyfrannu at y Nodau Llesiant ehangach a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a rhoi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) ar waith. Wrth ystyried a yw'r dangosyddion yn cyd-fynd â'r egwyddor honno dylem ystyried:

Integreiddio	Mae'r dangosyddion yn helpu i fesur cynnydd yn erbyn mwy nag un golofn, yn ddelfrydol dros fwy nag un fframwaith perfformiad neu faes polisi ac yn cefnogi gwaith integredig ar draws cyrff cyhoeddus.
Atal	A yw'r dangosydd yn ein helpu i weld a ydym yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
Hirdymor	Bydd y dangosydd yn berthnasol am y 5 mlynedd nesaf ac yn dylanwadu ar lunwyr polisi, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau wrth iddynt wneud penderfyniadau i helpu i leihau trais domestig yn y tymor hir.

Cydweithio	Mae angen i'r dangosyddion sbarduno trafodaeth â phartneriaid gan arwain at gydweithio i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol.
Cynnwys	Mae angen i'r dangosyddion fesur pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae'n rhaid iddynt fod wedi'u datblygu gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn sicrhau ein bod yn meithrin cyswllt â'r holl garfanau a chanddynt fuddiant ledled Cymru ac yn eu cynnwys wrth ddatblygu'r dangosyddion.

3.4 Data gweinyddol a data o arolygon

Dylai'r dangosyddion gynnwys data gweinyddol a data o arolygon. Dylid casglu data gweinyddol yn ystod gwaith arferol yr holl asiantaethau / gwasanaethau sy'n cynorthwyo ddioddefwyr trais ar sail rhywedd e.e. gwasanaethau cyhoeddus, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth arbenigol. Dylid defnyddio data gweinyddol i ddatblygu gwybodaeth ynghylch anghenion unigol, gwelliannau i wasanaethau ac effaith y ddarpariaeth.

Mae data o arolygon yn darparu gwybodaeth reolaidd, gynrychioladol y gellir ei chymharu, sy'n allweddol er mwyn cofnodi data mwyafrif yr unigolion nad ydynt yn gofyn am gymorth nac yn rhoi gwybod am eu profiadau. Mae data o arolygon yn ffordd ddibynadwy o wybod a yw cyfradd y trais yn cynyddu neu'n gostwng a gall hefyd ddarparu gwybodaeth ynghylch chwilio am help ac ymddygiad lle na roddir gwybod am ddigwyddiadau, canlyniadau a risgiau, a gall hefyd lywio gwaith sy'n gysylltiedig â chostau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Er mwyn i'r data fod yn gymaradwy ac yn gadarn mae'n hanfodol fod pob ffynhonnell o ddata gweinyddol a data arolygon yn dilyn yr un diffiniadau ac unedau mesur cyson ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

4. Y Cynnig

Ar sail y gwaith hyd yma a'r meini prawf a nodir yn adran 3 rydym wedi cynnig rhestr o 10 dangosydd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i Gymru. Wrth ddatblygu'r rhestr mae rhai dangosyddion wedi'u cynnwys y byddai angen eu datblygu ymhellach pe cytunid arnynt. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn i ni beidio â bod wedi'n cyfyngu gan ffynonellau data sydd ar gael eisoes. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd gwaith datblygu a chostau posib y dangosyddion yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf eraill, gan gynnwys adborth o'r ymgynghoriad, er mwyn cael gweld a ydynt yn ddichonadwy.

4.1 Y rhestr fanwl

Yn y tudalennau nesaf fe welwch fanylion y 10 dangosydd a'r mesurau cysylltiedig posib yr hoffem glywed eich barn arnynt. Rhoddwyd rhif i bob dangosydd (1-10) ac yn y ddogfen hon ceir gwybodaeth am

- Yr hyn sy'n cael ei fesur;
- Sut y caiff ei fesur;
- Ffynhonnell y data y bwriadwn ei ddefnyddio;
- Y rhesymeg a'r rhesymau dros ddewis y dangosydd.

At ddibenion yr ymgynghoriad dylid nodi bod yr holl ddangosyddion yn cael eu trin yn gyfartal, a bod y rhifau wedi'u cynnwys at ddibenion cyfeirio'n unig.

4.2 Crynodeb o'r Dangosyddion

AMCAN 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru
Dangosydd 1: Cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Dangosydd 2: Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol.
AMCAN 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser
Dangosydd 3: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.
Dangosydd 4: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser.
AMCAN 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr
Dangosydd 5: Sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau.
Dangosydd 6: Ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr .
AMCAN 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal
Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal i bawb a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth.
AMCAN 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr
Dangosydd 8: Y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn briodol iddynt.
AMCAN 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd
Dangosydd 9: Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol.
Dangosydd 10: Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder.

5. Manylion y Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y Mesurau a'r Ffynonellau Data

AMCAN 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru	
Dangosydd 1: Cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	
Mesur 1.1: Nifer y troseddau trais rhywiol / ymosod yn rhywiol a gofnodir gan yr heddlu	
Mesur 1.2: Nifer y digwyddiadau a'r troseddau cam-drin domestig a gofnodir gan yr heddlu	
Mesur 1.3: Nifer y digwyddiadau a'r troseddau Trais ar Sail Anrhydedd a gofnodir gan yr heddlu	
Ffynhonnell y Data	Data Cofnodion Troseddu'r Heddlu
Rhesymeg	Byddwn yn parhau i herio agweddau er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ein bwriad yn y pen draw yw creu cymdeithas nad yw'n goddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Disgwylir i nifer cynyddol yr ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ledled poblogaeth Cymru, a hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen, megis yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, a gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd, arwain at fwy o ymwybyddiaeth o adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hyder cynyddol ymhlith dioddefwyr i roi gwybod am y digwyddiadau hyn.
Materion i'w hystyried	Nid yw'n bosib mesur i ba raddau y mae'r nifer cynyddol o achosion y rhoddir gwybod amdanynt i'w briodoli i'r ffaith bod poblogaeth Cymru'n fwy ymwybodol o'r materion hyn a/neu hyfforddiant i staff/staff cymorth y rheng flaen, neu a yw oherwydd bod nifer yr achosion ar gynnydd. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl, gan gynnwys unrhyw ffynonellau data perthnasol.
Dangosydd 2: Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol	
Mesur 2.1: Canran y bobl sy'n meddwl ei bod bob amser yn annerbyniol taro neu roi slap i'w partner	
Mesur 2.2: Canran y bobl sy'n ymwybodol o fentrau Llywodraeth Cymru i leihau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	
Ffynhonnell y Data	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
Rhesymeg	Bydd y dangosyddion a gynigir yn mesur (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosib) ymwybyddiaeth o fentrau Llywodraeth Cymru ynghyd ag agweddau at drais yn erbyn

	menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Materion i'w hystyried	Mae 3 chwestiwn yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr sy'n gofyn a yw hi'n dderbyniol taro partner os yw'r partner i) yn achwyn neu'n cwyno o hyd ii) yn fflyrtio gyda phobl eraill neu iii) yn cael perthynas gyda rhywun arall neu'n twyllo. Efallai y bydd angen i ni ystyried rhagor o ymchwil/arolygon untro ehangach o ran ymwybyddiaeth ar draws y boblogaeth fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol er mwyn sicrhau y gallwn asesu safbwyntiau ar draws gwahanol grwpiau. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur cynnydd mewn ymwybyddiaeth, gan gynnwys unrhyw ffynonellau data perthnasol.

AMCAN 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser	
Dangosydd 3: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach	
Mesur 3.1: Canran/nifer y plant ysgol a'r bobl ifanc yng Nghymru sy'n mynd i sesiynau ymwybyddiaeth (drwy Sbectrwm neu ddarparwyr eraill)	
Ffynhonnell y Data	Data Sbectrwm / CYBLD / Cymorth i Fenywod Cymru
Rhesymeg	Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith aruthrol ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â theulu a chyfoedion, a'u gallu i fwynhau perthnasoedd iach a hapus sy'n llawn parch yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch, a chydsynio os ydym am roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Materion i'w hystyried	Dangosydd ar gyfer plant a phobl ifanc yw hwn ond mae'r ffynonellau data mwyaf a'r mwyaf dibynadwy yn rhai ar gyfer plant ysgol. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r mesurau ac a oes ffynonellau data eraill y gellid ac y dylid eu defnyddio i adrodd am holl blant a phobl ifanc Cymru. **Plant** – diffiniad y dangosydd fyddai hyd at 16 oed **Pobl ifanc** – diffiniad y dangosydd fyddai dros 16 a hyd at 24 oed.

Dangosydd 4: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser	
Mesur 4.1: Canran y bobl ifanc sy'n meddwl ei bod bob amser yn annerbyniol taro neu roi slap i'w partner	
Ffynhonnell y Data	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
Rhesymeg	Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith aruthrol ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â theulu a chyfoedion, a'u gallu i fwynhau perthnasoedd iach a hapus sy'n llawn parch yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin bob amser yn annerbyniol os ydym am roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Materion i'w hystyried	Dangosydd ar gyfer plant a phobl ifanc yw hwn ond dim ond am bobl ifanc fel y'u diffinnir isod y bydd yn adrodd. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r mesurau ac a oes ffynonellau data eraill y gellid ac y dylid eu defnyddio i adrodd am holl blant a phobl ifanc Cymru. **Plant** – diffiniad y dangosydd fyddai hyd at 16 oed **Pobl ifanc** – diffiniad y dangosydd fyddai dros 16 a hyd at 24 oed

AMCAN 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr	
Dangosydd 5: Sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau	
Mesur 5.1: Canran yr erlyniadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig sy'n arwain at euogfarn	
Mesur 5.2: Arestiadau fesul 100 o droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig	
Ffynhonnell y Data	Data Gwasanaeth Erlyn y Goron Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
Rhesymeg	Ni allwn fynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol heb weithio i atal cyflawnwyr rhag cam-drin yn y lle cyntaf neu eu dwyn i gyfrif am yr hyn a wnânt. Os yw codi ymwybyddiaeth yn arwain at roi gwybod am fwy o achosion, yn enwedig rhoi gwybod yn gynnar, yn ogystal â gwell dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n dilyn y dylai nifer yr erlyniadau gynyddu. Drwy fesur nifer yr erlyniadau ein nod yw dangos ein bod yn dwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd.
Materion i'w hystyried	Mae cyfiawnder yn faes nad yw wedi'i ddatganoli yn Nghymru ac felly mae y tu hwnt i gwmpas Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Er hynny, rhagwelir y bydd gweithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron a phedwar Heddlu Cymru i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu yn arwain at fwy o arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau. Ni fydd yn gyfan gwbl bosib darparu tystiolaeth fod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno'r Ddeddf. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur a oes mwy o sylw'n cael ei roi i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif.

Dangosydd 6: Ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr	
Mesur 6.1: Ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr	
Mesur 6.2: Canran y cyflawnwyr sy'n manteisio ar ymyrraeth	
Ffynhonnell y Data	Cyfraddau aildroseddu Angen ffynhonnell ddata ar gyfer mesur 6.2
Rhesymeg	Rydym yn cydnabod na allwn fynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol heb weithio i atal cyflawnwyr rhag cam-drin yn y lle cyntaf ac mae hwn yn faes y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddatblygu.
Materion i'w hystyried	Mae rhaglenni ar sail tystiolaeth sydd wedi'u hachredu'n elfen bwysig o atal, ac mae angen i ni gydgrynhoi'r data o'r rhaglenni hyn i lywio gwaith adrodd yn erbyn y dangosydd hwn. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur a oes mwy o sylw'n cael ei roi i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif.

AMCAN 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal	
Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal i bawb a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth.	
Mesur 7.1: Nifer yr achosion a drafodir mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yng Nghymru	
Mesur 7.2: Nifer yr achosion a gyfeirir at Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (atgyfeiriadau ac ailatgyfeiriadau)	
Mesur 7.3: Nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod	
Mesur 7.4: Nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod	
Mesur 7.5: Nifer yr atgyfeiriadau diogelu i'r rhai sydd mewn perygl o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod	
Ffynhonnell y Data	Data Safelives Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder Data Iechyd Cyhoeddus Cymru Data Diogelu Data'r Hwb Cymorth Amlasiantaeth
Rhesymeg	Mae ymyrraeth gynnar yn hollbwysig er mwyn atal trais rhag gwaethygu ac er mwyn lleihau niwed i ddioddefwyr a'u plant. Mae adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn gynted â phosib ac ymateb yn briodol er mwyn lleihau'r effaith a'r niwed yn hanfodol er mwyn cyflawni dibenion atal, amddiffyn a chymorth y Strategaeth Genedlaethol.
Materion i'w hystyried	Efallai na fydd mesur 7.1 yn fesur priodol ar gyfer ymyrraeth gynnar oherwydd os yw achos wedi cyrraedd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg mae hynny at ei gilydd yn awgrymu bod risg uchel i'r dioddefwr.

	Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur y dangosydd a gynigir.

AMCAN 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr	
Dangosydd 8: Y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn briodol iddynt	
Mesur 8.1: Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n cwblhau grwpiau perthnasol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol	
Mesur 8.2: Nifer a chanran y gweithwyr proffesiynol sy'n cwblhau hyfforddiant perthnasol	
Ffynhonnell y Data	Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol
Rhesymeg	Mae angen i ni ddarparu tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol ar draws yr holl awdurdodau perthnasol (byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r Gwasanaethau Tân ac Achub) yn cael cymorth i wella eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a fydd yn arwain at ymateb yn well i ddatgeliadau. Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi'i gynllunio a'i roi ar waith i wneud yn union hynny. Mae nifer o gyrsiau hyfforddi perthnasol a phriodol eraill wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith ledled y sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae angen adrodd yn erbyn y rhain hefyd. Disgwylir i'r ffaith bod y dangosydd hwn wedi'i gynnwys sicrhau y gallwn nid yn unig adrodd yn erbyn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ond hefyd bob hyfforddiant perthnasol arall.
Materion i'w hystyried	Er ein bod wedi nodi ffynhonnell berthnasol y data ar gyfer mesur 8.1, nid ydym eto wedi nodi ffynhonnell ddata ar gyfer 8.2.

	Bydd llawer o wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cydgrynhoi'r data am yr hyfforddiant y maent yn ei ddarparu, ond mae angen i ni sicrhau nad ydym yn cyfrif y data hwn ddwywaith, os yw'r hyfforddiant hwnnw hefyd yn rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac felly'n cael ei gofnodi o dan fesur 8.1. Bydd angen i unrhyw gynigion ar gyfer ffynonellau data a argymhellir ddangos eu bod y tu allan i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur y dangosydd a gynigir.
AMCAN 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd	
Dangosydd 9: Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol	
Mesur 9.1: Nifer yr atgyfeiriadau i lochesi neu wasanaethau cymunedol eraill	
Ffynhonnell y Data	Ffynhonnell y data i'w gytuno
Rhesymeg	Gall darparu cymorth i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt fod yn fater cymhleth, oherwydd gall profiadau ac anghenion pobl fod yn wahanol iawn. Mae angen i ni hybu diwylliant cefnogol, a hefyd, law yn llaw â hynny, ystod o'r gwasanaethau a all ymateb orau i anghenion unigolion a theuluoedd. Mae gan wasanaethau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol a gwasanaethau arbenigol annibynnol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gyd ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu ystod o opsiynau cymorth. Bydd cydweithio'n fodd o sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddarparu gwasanaethau ac yn hwyluso gwell gwerth am arian a hyblygrwydd o ran gwasanaethau sy'n cael eu hariannu i fodloni'r angen yn lleol.

	Diben y dangosydd hwn yw cofnodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ledled Cymru.
Materion i'w hystyried	Mae'n bosib y caiff y dangosydd a/neu'r mesur hwn ei ddiweddaru wedi i Adolygiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o lochesi a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ddirwyn i ben. Bydd angen i unrhyw gynigion ar gyfer ffynonellau data a argymhellir ddangos eu bod y tu allan i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd gyson o gofnodi, mesur ac adrodd am safbwyntiau goroeswyr wrth gael gafael ar gymorth. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur y dangosydd a gynigir.
Dangosydd 10: Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder	
Mesur 10.1: Canran y rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth gan bartneriaid sy'n teimlo'n fodlon neu'n weddol fodlon â'r canlyniad yn sgil eu profiad gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.	
Ffynhonnell y Data	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
Rhesymeg	Gall darparu cymorth i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt fod yn fater cymhleth, oherwydd gall profiadau ac anghenion pobl fod yn wahanol iawn. Mae angen i ni hybu diwylliant cefnogol, a hefyd, law yn llaw â hynny, ystod o'r gwasanaethau a all ymateb orau i anghenion unigolion a theuluoedd. Rydym yn gwybod bod sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yr un mor bwysig â beth sy'n cael ei ddarparu. Mae angen ymatebion amserol sy'n ymateb i anghenion niferus heb farnu. Mae angen i ni helpu goroeswyr i gael gafael ar wasanaethau, sy'n aml yn broses gymhleth, a'u helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol, a grymuso a galluogi pobl i'w hamddiffyn eu hunain. Bydd y dangosydd hwn yn caniatáu i ni fesur bodlonrwydd goroeswyr.
Materion i'w hystyried	Bob tair blynedd yn unig y gofynnir y cwestiwn hwn (cafodd ei ofyn yn 2018 a chyn hynny yn 2015) a gall maint y samplau fod yn fach. Dylid ystyried a oes ffynhonnell wahanol o ddata y gellid ei defnyddio i gofnodi hyn.

	Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd gyson o gofnodi, mesur ac adrodd am safbwyntiau goroeswyr wrth gael gafael ar gymorth. Gofynnir i'r ymatebwyr am eu barn am ba mor briodol yw'r dangosyddion a'r mesurau, gan gynnwys a oes dangosyddion eraill mwy priodol a fyddai'n mesur y dangosydd a gynigir.

5.1 Y cyfyngiadau a nodwyd

Mae'r data sydd ar gael i fesur y dangosyddion yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynnwys yn y dangosyddion cenedlaethol. Rhan o'n gwaith wrth ymgynghori ar y dangosyddion, felly, fydd nodi a oes ffynonellau data eraill nad ydym wedi'u nodi eto, neu a allwn ddatblygu ffynonellau data newydd i'w cynnwys yn y dangosyddion cenedlaethol yn y dyfodol.

5.2 Cwestiynau Ymgynghori Penodol

Cwestiwn 1	A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gyfres o ddangosyddion a gynigir, gyda'i gilydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r Amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol? Esboniwch eich ateb.	Cytuno'n gryf Cytuno Anghytuno Anghytuno'n gryf
Cwestiwn 2	A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y gellid eu gwella? Os felly, rhestrwch y rhai yr ydych yn meddwl y gellid eu gwella a nodwch pa welliannau y byddech yn eu hawgrymu. Mae'n rhaid i chi ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 3 wrth gynnig gwelliant.	Oes/Nac oes
Cwestiwn 3	A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y dylid eu hepgor? Os felly, rhestrwch y rhai yr ydych yn meddwl y dylid eu hepgor a dywedwch pam. Mae'n rhaid i chi ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 3 wrth gynnig dangosydd i'w ddileu.	Oes/Nac oes
Cwestiwn 4	A oes unrhyw ddangosyddion eraill rydych yn meddwl y dylid eu cynnwys? Os felly, cwblhewch y templed a ddarperir.	Oes/Nac oes

	Mae'n rhaid i chi ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 3 wrth gynnig dangosydd newydd.	
Cwestiwn 5	Sut ydych chi'n meddwl y dylem roi gwybod i bobl a chymunedau Cymru am y dangosyddion cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?	
Cwestiwn 6	A yw'r mesurau a gynigir yn briodol ar gyfer adrodd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol arfaethedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Os nad ydynt, rhestrwch y rhai yr ydych yn meddwl sy'n amhriodol a nodwch pa fesurau a ffynonellau data y byddech yn eu hawgrymu. Mae'n rhaid i chi ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 3 wrth gynnig mesur newydd.	Ydynt / Nac ydynt
Cwestiwn 7	A ydych yn gwybod am unrhyw fylchau yn y data? Os felly, nodwch beth yw'r bylchau hynny.	Ydw / Nac ydw
Cwestiwn 8	A oes unrhyw feysydd y byddai'n dda o beth gwneud rhagor o ymchwil iddynt (h.y. y tu hwnt i gwmpas fframwaith y dangosyddion hyn)? Os felly, nodwch pa feysydd y mae angen ymchwilio iddynt.	Oes / Nac oes
Cwestiwn 9	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?	
Cwestiwn 10	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn	

	erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
Cwestiwn 11	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.	

Atodiad A: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rhowch bennawd yn ymwneud â'r cwestiynau

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1	A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gyfres o ddangosyddion a gynigir, gyda'i gilydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r Amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?
Cwestiwn 2	A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y gellid eu gwella? Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi defnyddio'r templed a ddarperir yn Atodiad B.
Cwestiwn 3	A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y dylid eu hepgor?
Cwestiwn 4	A oes unrhyw ddangosyddion eraill rydych yn meddwl y dylid eu cynnwys? Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi defnyddio'r templed a ddarperir yn Atodiad B.
Cwestiwn 5	Sut ydych chi'n meddwl y dylem roi gwybod i bobl a chymunedau Cymru am y dangosyddion cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Cwestiwn 6	A yw'r mesurau a gynigir yn briodol ar gyfer adrodd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol arfaethedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Ydynt / Nac ydynt
Cwestiwn 7	A ydych yn gwybod am unrhyw fylchau yn y data?
Cwestiwn 8	A oes unrhyw feysydd y byddai'n dda o beth gwneud rhagor o ymchwil iddynt (h.y. y tu hwnt i gwmpas fframwaith y dangosyddion hyn)?
Cwestiwn 9	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?
Cwestiwn 10	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Cwestiwn 11	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

	Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

Atodiad B: Defnyddiwch y templed hwn os ydych am newid dangosydd, neu os ydych am ddisodli un o'r dangosyddion a gynigir neu gynnig dangosydd ychwanegol. (Dylech lenwi un ffurflen i bob dangosydd.)

A yw'r dangosydd rydych yn ei gynnig yn disodli un o'r dangosyddion neu'n gwella un o'r dangosyddion? Ticiwch un blwch: Disodli ☐ *Gwella ☐ Newydd ☐ *Gall gwelliannau gynnwys newidiadau i fesurau a gynigir neu newidiadau i ffynonellau data neu gynnig rhai ychwanegol
Pa ddangosydd mae'r dangosydd rydych yn ei gynnig yn ei wella neu'n ei ddisodli?
Beth yw enw'r dangosydd newydd neu'r dangosydd sy'n disodli un arall?
Beth yw'r mesur(au) rydych yn eu cynnig ar gyfer y dangosydd sy'n disodli un arall?
Beth yw ffynhonnell y data ar gyfer y mesur hwn?

Pa un o’r 6 Amcan yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae’r dangosydd newydd, neu’r dangosydd wedi’i wella, neu’r dangosydd sy’n disodli un arall, yn adrodd yn ei erbyn?
Esboniwch pam mai’r dangosydd hwn sy’n mesur orau Amcan y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â’r meini prawf a nodir yn Adran 3.